# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Pwyllgor Craffu Perfformiad | Dyddiad: | 23 Ionawr 2019 |
| | | Rhif Union: | 01824 712554 |
| | | ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD, DYDD IAU, 31 IONAWR 2019** am **10.00 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

**Cynhelir sesiwn friffio ar gyfer aelodau ac aelodau cyfetholedig am 9.15am, yn union o flaen y prif gyfarfod. Taer erfynnir ar i aelodau wneud pob ymdrech i fynychu'r sesiwn hon.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 - GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I'R RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT** (Tudalennau 5 - 6)

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu yn y busnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 7 - 18)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2018 (copi ynghlwm).

**5 CANLYNIADAU ARHOLIADAU ALLANOL A WIRIWYD AC ASESIADAU ATHRAWON** (Tudalennau 19 - 36)

Derbyn gwybodaeth ynglŷn â pherfformiad ysgolion Sir Ddinbych yn arholiadau allanol 2018 (copi ynghlwm).

10.05 – 10.50 a.m.

**6 SAFONAU LLYFRGELL** (Tudalennau 37 - 56)

Ystyried perfformiad y Cyngor ar ddechrau 6ed Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-20 a'r cynnydd a wnaed wrth ddatblygu llyfrgelloedd fel canolfannau cymunedol (copi ynghlwm).

10.50 – 11.30 a.m.

**EGWYL - 11.30 - 11.45 a.m.**

**7 ADRODDIAD CENEDLAETHOL SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU AR REOLI GWASTRAFF YNG NGHYMRU** (Tudalennau 57 - 140)

Ystyried adroddiad SAC ar 'Reoli Gwastraff yng Nghymru: Ailgylchu Trefol', i graffu ar y casgliadau ac ymateb Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu'r Cyngor i fynd i'r afael â materion a godwyd yn yr adroddiad (copi ynghlwm).

11.45 – 12.20 p.m.

**8 RHAGLEN WAITH CRAFFU** (Tudalennau 141 - 160)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynydd Craffu (copi wedi'i atodi) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor ac yn diweddaru aelodau ar faterion perthnasol.

12.20 – 12.35 p.m.

**9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR**

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar Fyrddau a Grwpiau amrywiol y Cyngor.

12.35 – 12.45 p.m.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Huw Jones (Cadeirydd)

Hugh Carson Irving (Is-Gadeirydd)

Ellie Chard
Ann Davies
Rachel Flynn
Martyn Holland
Geraint Lloyd-Williams
Bob Murray
Arwel Roberts
David Williams

**Aelodau Cyfetholedig dros Addysg sy'n Pleidleisio (Rhifau Eitemau Agenda 5 yn unig)**

Kathleen Jones
David Lloyd
Neil Roberts

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i,<br>(enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o<br>*(*dileuer un)* | **Cyngor Sir Ddinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant:<br>*(Gweler y nodyn isod)** | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd yn Ystafell Gynadledda 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, ddydd Iau, 29 Tachwedd 2018 am 10.00am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Ann Davies, Martyn Holland, Hugh Irving (Is-Gadeirydd), Huw Jones (Cadeirydd), Bob Murray ac Arwel Roberts.

Aelodau Cyfetholedig – roedd Kathleen Jones a Neil Roberts yn bresennol ar gyfer eitem 5 ar yr agenda.

Y Cynghorwyr Huw Hilditch-Roberts, Julian Thompson-Hill a Richard Mainon fel Aelodau Arweiniol ar gyfer eitemau 5, 6 a 7/8 yn y drefn honno.

Roedd y Cynghorydd Graham Timms yn bresennol fel sylwedydd.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Prif Weithredwr(JG), Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant (KIE), Uwch Swyddog Gwella Ysgolion – Uwchradd (JM), Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol (NK), Rheolwr Gwella Gwasanaethau (FA), Swyddog Cwynion Statudol a Chorfforaethol (KR), Prif Swyddog - Gwasanaethau Cynnal (AL), Cydlynydd Craffu (RhE) a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (KAE).

**1 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Rachel Flynn a Geraint Lloyd-Williams a’r aelod cyfetholedig David Lloyd.

Croesawodd y Cadeirydd Neil Roberts, aelod cyfetholedig addysg yr Eglwys yng Nghymru a benodwyd i’w gyfarfod cyntaf yn ei rôl newydd.

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Datganwyd cysylltiad personol ar gyfer eitem 5 ar yr agenda, Arholiadau Allanol Dros Dro ac Asesiadau Athrawon, gan y Cynghorwyr canlynol:

- Huw Jones, llywodraethwr yn Ysgol Carrog ac Ysgol Caer Drewyn;
- Ellie Chard, llywodraethwr yn Ysgol Tir Morfa;
- Martyn Holland - llywodraethwr yn Ysgol Bro Famau;
- Hugh Irving, llywodraethwr yn Ysgol Uwchradd Prestatyn;
- Arwel Roberts – llywodraethwr yn Ysgol y Castell ac Ysgol Dewi Sant;
- David Williams fel rhiant i blentyn mewn ysgol yn Sir Ddinbych;
- Huw Hilditch-Roberts fel llywodraethwr yn Ysgol Brynhyfryd a rhiant i blentyn mewn ysgol yn Sir Ddinbych;

- Graham Timms, llywodraethwr yn Ysgol Dinas Bran

Ynghyd â'r aelod cyfetholedig Kathleen Jones, Llywodraethwr yn Ysgol y Parc.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Nid oedd unrhyw fater brys.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd ar 27 Medi 2018.

<u>Materion yn Codi:</u>

Mynegodd y Cynghorydd Martyn Holland ei werthfawrogiad wedi i grynodeb o'i sylwadau a oedd wedi'u hepgor o gofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad gael eu cynnwys.

Eitem 5 ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol (tudalen 8) – Cadarnhaodd y Cydlynydd Craffu bod sylwadau'r Pwyllgor Craffu Perfformiad wedi cael eu cyflwyno yng nghyfarfod briffio'r Cabinet ar 15 Hydref 2018.

***PENDERFYNWYD – y dylid, yn amodol ar yr uchod, derbyn a chymeradwyo Cofnodion y cyfarfod Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 27 Medi 2018 fel cofnod cywir.***

**5 ARHOLIADAU ALLANOL DROS DRO AC ASESIADAU ATHRAWON**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol ar gyfer Addysg, Plant a Phobl Ifanc adroddiad ar y cyd gan y Prif Reolwr Addysg ac Arweinydd Uwchradd GwE (a oedd eisoes wedi'i gylchredeg). Roedd yr adroddiad yn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor am ganlyniadau Asesiadau Athrawon a oedd wedi'u gwirio o'r Cyfnod Sylfaen (CS) i Gyfnod Allweddol 3 (CA3) a chanlyniadau arholiadau dros dro Cyfnod Allweddol 4 (CA4) ar gyfer disgyblion Sir Ddinbych yn ystod blwyddyn academaidd 2017/18.

Yn ystod ei gyflwyniad tynnodd yr Aelod Arweiniol sylw at y ffaith bod y trothwy cyrhaeddiad ar gyfer cyflawni gradd 'C' yn yr arholiad TGAU Saesneg yn haf 2018 wedi codi o 20 pwynt o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. O ganlyniad, yn seiliedig ar drothwy sgorio 2017, dyfarnwyd gradd 'D' i gyfanswm o 107 o ddisgyblion yn Sir Ddinbych y rhagwelwyd y byddent yn cyflawni gradd 'C' yn eu harholiad Saesneg yn haf 2018 – effeithiodd hyn ar gyfanswm o 700 o ddisgyblion ar draws rhanbarth GwE.

Dywedodd yr Aelod Arweiniol bod pob awdurdod addysg lleol yng ngogledd Cymru a GwE wedi codi pryderon wrth Lywodraeth Cymru (LlC) am y cynnydd anghymesur yn y trothwy TGAU Saesneg o'i gymharu â phynciau eraill a'r effaith niweidiol yr oedd hyn yn ei gael ar ddisgyblion. Roedd swyddogion addysg yn ceisio cyngor cyfreithiol ar y mater ar hyn o bryd.

Dywedodd Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant y Cyngor wrth aelodau bod yr adroddiad wedi'i gyflwyno mewn gwahanol fformat i flynyddoedd blaenorol er mwyn cydymffurfio â gofynion LlC.  Gan nad oedd data cyrhaeddiad cymharol cenedlaethol bellach yn cael eu cyhoeddi ar gyfer cyfnodau allweddol addysg, nid oedd disgwyl i awdurdodau addysg lleol feincnodi eu hunain yn erbyn awdurdodau eraill – ond gallai consortia addysg rhanbarthol grynhoi setiau data cymharol yn ôl rhanbarthau pe dymunent.

Dywedodd y Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant bod canlyniadau ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (CA2) wedi parhau'n gadarn, sefyllfa a oedd wedi aros felly ers sawl blwyddyn ac yr oedd Estyn wedi'i gydnabod yn ei adroddiad diweddar yn dilyn ei arolwg o wasanaeth addysg y Cyngor.

Er bod y gostyngiad mewn lefelau perfformiad yn CA4 wedi peri pryder, roedd yn bwysig cofio'r rhesymau pam fod hyn wedi digwydd a rhoi ystyriaeth i ganfyddiadau a chasgliadau Arolwg Estyn o Wasanaeth Addysg y Cyngor a oedd wedi bod yn eithriadol o gadarnhaol.  Roedd disgwyl i Estyn wneud cyfeiriadau ffafriol at wasanaethau addysg Sir Ddinbych yn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr, a fyddai'n cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2018.

Roedd Atodiad 1 yr adroddiad yn cynnwys adroddiad drafft ar y cyd â GwE ar berfformiad addysgol Sir Ddinbych.  Roedd fformat a strwythur yr adroddiad hwn wedi'i gytuno ar draws y rhanbarth er mwyn sicrhau bod yr un math o wybodaeth yn cael ei adrodd i bob awdurdod lleol ac yn yr un fformat.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor:

- er bo perfformiad disgyblion CS Sir Ddinbych wedi gostwng mymryn yn ystod y cyfnod asesu dan sylw, roedd y gostyngiad hwn wedi bod yn is na'r gostyngiad a gofnodwyd yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Y prif reswm dros y gostyngiad mewn perfformiad oedd y disgrifyddion canlyniadau mwy heriol a ddefnyddiwyd wrth asesu canlyniadau mewn iaith a mathemateg;
- Yn ôl y disgwyl, roedd canlyniadau CA2 wedi parhau i wella fel y blynyddoedd blaenorol.  Wrth edrych ymlaen roedd y Cyngor a GwE wedi nodi'r angen i fynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad addysgol, yn ogystal â sut i gefnogi disgyblion sy'n cyflawni lefelau uchel fel rhan o'u ffocws addysg gynradd yn y dyfodol;
- roedd lefelau perfformiad yn parhau'n gryf yn CA3 yn unol â pherfformiad cenedlaethol yn gyffredinol.  Roedd perfformiad disgyblion Sir Ddinbych yn erbyn y Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) wedi bod yn dda er gwaethaf y gostyngiad bach yn eu perfformiad mewn mathemateg.  Y rheswm am hyn oedd y ffaith bod cynnydd bach wedi bod mewn lefelau perfformiad Saesneg a chynnydd sylweddol ym mherfformiad disgyblion mewn Cymraeg.  Roedd swyddogion yn cydnabod bod angen i ysgolion newid y ffordd y maent yn herio a defnyddio data CA3 er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.  Hefyd, roedd angen gwneud mwy o waith ar wella perfformiad disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn erbyn y DPC;
- oherwydd y newidiadau a gyflwynwyd i'r broses arholiadau CA4 yn ystod 2016-17, roedd y data perfformiad yn dal i fod yn anwadal dros ben, a dyna pam roedd gostyngiad wedi digwydd yn y lefelau perfformiad yn genedlaethol yn arholiadau haf 2018.  Mae'r gostyngiad hwn yn cael ei

ddwysau ymhellach gan y newid sylweddol yn y trothwy cyrhaeddiad ar gyfer Saesneg a Mathemateg yn arholiad haf 2018, a'r ffaith mai dim ond un pwnc Gwyddoniaeth sydd bellach yn cael ei gynnwys yn y sgôr 9 wedi'i chapio. Er bo'r gostyngiad yn lefelau perfformiad Sir Ddinbych yn erbyn y sgôr 9 wedi'i chapio o minws 10.4 yn ymddangos yn sylweddol ar yr olwg gyntaf, o ystyried cyd-destun y newidiadau a gyflwynwyd i'r system arholiadau allanol yn ystod y blynyddoedd diwethaf roedd y gostyngiad mewn lefelau perfformiad yn ddealladwy. Roedd Gwasanaeth Addysg Sir Ddinbych yn rhagweithiol iawn o ran herio a datblygu dangosyddion newydd a byddai felly'n herio effeithiolrwydd y set newydd o ddangosyddion;

- Roedd ysgolion Sir Ddinbych yn canolbwyntio ar gefnogi pob disgybl unigol i gyflawni a gwireddu ei lawn botensial. Roedd yr Awdurdod a'i ysgolion yn gweld pob disgybl yn gyfartal ac yn rhoi hawl iddynt dderbyn cefnogaeth briodol er mwyn sicrhau eu bod yn llwyddo hyd orau eu gallu. Rhinwedd a gydnabuwyd gan Estyn; a
- er mwyn cyflawni Gradd 'C' mewn arholiad TGAU Saesneg yn haf 2017 roedd gofyn i fyfyriwr sgorio 200 o bwyntiau, ar gyfer arholiad Tachwedd 2018 roedd y trothwy wedi codi i 206. Fodd bynnag erbyn haf 2018 daeth yn hysbys bod y trothwy wedi cynyddu i 220, heb unrhyw rybudd o flaen llaw i awdurdodau addysg nac ysgolion. Roedd CBAC, y Bwrdd Arholi, wedi mabwysiadu dull gweithredu tebyg ar gyfer yr arholiad TGAU Mathemateg hefyd. Cytunodd pob Cyfarwyddwr Addysg yng ngogledd Cymru, GwE a phenaethiaid bod hyn yn annheg ac yn anghyson ag arferion blaenorol, ond er gwaethaf y ffaith bod pryderon wedi'u codi gyda CBAC a Chymwysterau Cymru, ni dderbyniwyd ateb boddhaol. O ganlyniad, roedd yr Aelod Arweiniol wedi codi'r pryderon hyn gyda Gweinidog Cabinet dros Addysg LlC a gofyn iddi gynnal ymchwiliad.

  Roedd newidiadau mor sylweddol â hyn mewn ffiniau trothwy yn ei gwneud yn eithriadol o anodd i athrawon allu cefnogi disgyblion drwy'r broses arholi. Gan fod gofyn i bob ysgol awdurdod lleol yng Nghymru ymgofrestru eu disgyblion ar gyfer arholiadau CBAC – ac nid arholiadau a weinyddir gan unrhyw fyrddau arholi eraill – gallai disgyblion fod dan anfantais wrth gystadlu am leoedd addysg bellach a/neu addysg uwch yn erbyn disgyblion o Loegr a/neu ysgolion annibynnol. Er nad oedd unrhyw awgrym bod CBAC na Chymwysterau Cymru yn mynd i ailystyried graddau 2018, roedd yn bwysig wrth ystyried y newidiadau sydd ar y gorwel i'r system arholi, nad oedd newidiadau sylweddol fel hyn i'r trothwy yn cael eu cyflwyno yn y dyfodol heb rybudd o flaen llaw.

Gofynnodd Arweinydd Uwchradd GwE i gofnod gael ei wneud o'i ddiolchgarwch personol i Bennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant Sir Ddinbych a staff yr Adran am amddiffyn ysgolion y sir a dadlau dros y disgyblion. Credai bod y ffaith eu bod yn sicrhau bod lleisiau'r sir a'r rhanbarth yn cael eu clywed ar lefel genedlaethol yn galonogol.

Wrth ymateb i gwestiynau aelodau, fe wnaeth yr Aelod Arweiniol, Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant, Prif Reolwr Addysg ac Arweinydd Uwchradd GwE:

- sicrhau aelodau y gallai'r Gwasanaeth 'olrhain' cynnydd a chyrhaeddiad pob disgybl unigol trwy gydol eu cyfnod mewn addysg. Roedd y data a gedwir am bob disgybl yn cynnwys gwybodaeth am unrhyw heriau a allai effeithio ar

eu perfformiad addysgol; boed hynny'n feddygol, corfforol, meddyliol neu bwysau ar amgylchedd y cartref. Roedd manylion ar y lefel honno yn helpu'r Cyngor i sicrhau bod ymyrraeth a chefnogaeth briodol ac amserol yn cael ei chynnig i'r disgybl a'r teulu hefyd yn ôl yr angen, er mwyn helpu pob plentyn i wireddu ei lawn botensial. Cynghorwyd aelodau i gysylltu â swyddogion os oeddent yn dymuno gweld y math o ddata a ddefnyddir gan y Gwasanaeth i 'olrhain' pob disgybl;

- dweud mai un o gryfderau Sir Ddinbych yw ei fod yn gallu 'olrhain' perfformiad disgyblion a oedd yn cael eu haddysgu mewn lleoliadau heblaw am ysgolion (EOTAS). Roedd yr awdurdod yn cynnwys y disgyblion hyn yn ei ddata perfformiad, nid pob awdurdod sy'n cynnwys data EOTAS yn eu hadroddiadau. Gan fod y Cyngor yn ymwybodol o ddisgyblion EOTAS, gallai fonitro eu cynnydd, darparu cefnogaeth yn ôl y gofyn a chydymffurfio â'i ddyletswyddau diogelu a lleihau'r risg o Gamfanteisio'n Rhywiol Ar Blant. Nid oedd pob awdurdod lleol yn cynnwys eu disgyblion EOTAS yn eu hadroddiadau, felly pe baent yn gorffen eu haddysg heb gymwysterau ni fyddai hynny'n cael ei adlewyrchu yn eu hadroddiadau data. Fodd bynnag, nid oedd disgyblion a addysgir gartref yn cael eu cynnwys yn y data canlyniadau, gan nad oedd yn ofynnol iddynt eu cynnwys, ond roedd Sir Ddinbych yn gwybod pwy odden nhw;
- cadarnhau bod y Meysydd Dysgu yn Fframwaith Asesu'r Cyfnod Sylfaen o ran iaith, llythrennedd, cyfathrebu a mathemateg yn ddefnyddiol i'r Awdurdod, gan ei fod yn cynorthwyo'r Gwasanaeth Addysg i nodi rhwystrau dysgu yn gynharach ac yn ei alluogi i ddarparu ymyrraeth briodol ar ddechrau siwrnai addysgol y disgybl. Roedd y Gwasanaeth Addysg wedi gweithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd ar ddarn o waith a oedd yn canolbwyntio ar ardaloedd o amddifadedd. Tynnodd sylw at y ffaith bod problemau datblygu iaith a lleferydd yn amlwg mewn ardaloedd o amddifadedd uchel;
- cytuno bod absenoldeb data cymharol at ddibenion meincnodi yn siomedig. Er hynny, gobeithiwyd y byddai rhywfaint o wybodaeth gymharol ar gael erbyn i'r canlyniadau a wiriwyd fod yn barod i'w craffu;
- cadarnhau bod perygl y gallai data CA4 ar gyfer 2019 fod yn ystumiedig hefyd, yn debyg i sefyllfa 2018, oherwydd bod y cymhwyster Gwyddoniaeth yn cael ei adolygu;
- dweud bod y term 'Cymraeg iaith gyntaf' yn berthnasol i ddisgyblion a oedd yn derbyn eu haddysg trwy'r system addysg cyfrwng Cymraeg yn y sir, p'un a oeddent yn siarad Cymraeg adref ai peidio. Roedd Sir Ddinbych yn perfformio'n dda ar hyn o bryd o ran sgiliau Cymraeg yn y sector cyfrwng Cymraeg ac yn y sector Cymraeg ail iaith. Gyda'r cwricwlwm newydd a fyddai'n cael ei gyflwyno byddai Cymraeg fel ail iaith yn dod i ben a byddai pob disgybl yn cael ei asesu yn ôl ei sgiliau Cymraeg iaith gyntaf;
- pwysleisio bod y dangosydd Prydau Ysgol Am Ddim yn ddangosydd perfformiad crai a ddefnyddir i fesur lefel amddifadedd a'r gefnogaeth sy'n ofynnol mewn ysgol. Roedd yn amrywio rhwng ysgolion. Roedd dadansoddiad lleol o'r dangosydd hwn yn allweddol er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn derbyn yr un lefel o gefnogaeth i ddiwallu eu hanghenion penodol;
- dweud bod oddeutu 44 o ddisgyblion ar draws ysgolion y sir yn ymddwyn mewn modd sy'n cael effaith niweidiol ar ddisgyblion eraill. Roedd yr Awdurdod yn gweithio gyda'r heddlu, colegau a budd-ddeiliaid eraill i

gefnogi'r disgyblion hyn a mynd i'r afael â'r materion a oedd yn peri iddynt ymddwyn yn wael. Roedd hwn yn faes gwaith eithriadol o gymhleth a oedd yn mynnu dull gweithredu tymor canolig a thymor hir yn ogystal ag ymgysylltiad nifer o wahanol asiantaethau gan nad oedd y disgyblion hyn yn ymgysylltu â'r gymuned ehangach yn gyffredinol;

- cadarnhau bod cyfansoddiad a rôl y Grŵp Monitro Safonau Ysgolion (GMSY) yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd;
- esbonio, er bod yr awdurdod lleol yn olrhain cynnydd disgyblion yn rheolaidd er mwyn rhoi cefnogaeth ddigonol iddynt gyflawni eu graddau arfaethedig, nid oedd yn gwybod o flaen llaw bod CBAC yn bwriadu codi'r trothwy ar gyfer gradd 'C' i 80 ar gyfer mathemateg a 220 ar gyfer Saesneg. Mae'n bosibl y bydd hynny wedi effeithio ar opsiynau ôl-16 rhai disgyblion, yn arbennig o ran prentisiaethau.
  Roedd ysgolion chweched dosbarth a cholegau yn ymwybodol o'r broblem a achoswyd o ganlyniad i godi'r trothwy ac felly gostyngwyd eu meini prawf mynediad er mwyn galluogi disgyblion i ail-sefyll arholiadau gyda'r bwriad o gyflawni'r graddau gofynnol, gan gadw mewn cof bod y cynnydd yn y pwyntiau gofynnol i gyflawni gradd 'C' hefyd yn golygu y byddai cynnydd mewn trothwyau graddau 'B' ac 'A' hefyd;
- cadarnhau nad oedd gan y Cyngor gyfrifoldebau mewn perthynas â theuluoedd a phlant sipsiwn a theithwyr. Ar ôl i'r Awdurdod gael eu hysbysu bod teulu sipsiwn neu deithwyr wedi symud i'r ardal, byddai'r Swyddog Diogelu Addysg yn ymweld â'r teulu i gynnig cefnogaeth ac arweiniad. Roedd gan yr Awdurdod blant sipsiwn a theithwyr preswyl yn cael eu haddysgu yn ysgolion y sir. Er bod perswadio teuluoedd teithiol i gofrestru eu plant mewn ysgol leol a gwneud pob ymdrech i sicrhau eu bod yn bresennol yn aml yn heriol, roedd y swyddog arbenigol yn brofiadol iawn ac roedd yn annog teuluoedd i ymgysylltu â'r system addysg; a
- cytuno y byddai rhywfaint o ddata cymharol yn cael ei ddarparu gyda'r adroddiad canlyniadau a wiriwyd ar ddechrau 2019, ond roedd croeso mawr i'r aelodau ymweld â'r Gwasanaeth yn unigol i fynd trwy'r data a gweld sut y gwnaethant ddefnyddio'r data a oedd ar gael i herio ysgolion a threfnu cefnogaeth briodol i'r disgyblion.

Ar ddiwedd trafodaeth y Pwyllgor:

***<u>PENDERFYNWYD:</u> - yn amodol ar y sylwadau uchod -***

***(i) cydnabod perfformiad ysgolion yn erbyn perfformiad blaenorol a chefnogi'r meysydd a nodwyd i'w gwella;***

***(ii) bod llythyr yn cael ei anfon ar ran y Pwyllgor at Gymwysterau Cymru yn cofrestru pryderon a siom aelodau ynglŷn â'r cynnydd sylweddol yn y trothwy gradd 'C' ar gyfer arholiad TGAU Saesneg haf 2018 o'i gymharu â throthwy 2017, a'r effaith niweidiol y cafodd hynny ar fyfyrwyr; a***

***(iii) bod yr adroddiad y trefnwyd ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2019 ar y Canlyniadau Arholiadau Allanol a Wiriwyd yn cynnwys niferoedd gwirioneddol yn ogystal â chanrannau, a data cymharol rhanbarthol lle bo hynny'n bosibl, ynghyd â data absenoldeb a chyfraddau gwaharddiadau ym mhob un o ysgolion y Sir.***

## 6 CYNLLUN CORFFORAETHOL CHWARTER 2 - 2017//2022

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol adroddiad ac atodiadau'r Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol (a oedd eisoes wedi'u cylchredeg) yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am berfformiad y Cyngor wrth ddarparu ei Gynllun Corfforaethol 2017-2022 ar ddiwedd chwarter dau 2018-19. Tynnodd sylw'r aelodau at adroddiad y Crynodeb Gweithredol ar gynnydd hyd yma – Atodiad 1, Atodiad 2 a oedd yn cynnwys yr adroddiad perfformiad chwarterol llawn, ac Atodiadau 3 a 4 a oedd yn cynnwys crynodeb o'r prosiectau a oedd ar y gweill gyda'r bwriad o wireddu'r Cynllun cyffredinol a'u safleoedd presennol, gan ddweud bod y Cabinet a'r swyddogion yn fodlon bod y cynnydd hyd yma fel y cynnydd a ragwelwyd.

Amlygodd y Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol nifer o bwyntiau a phenderfyniadau a wnaethpwyd yn ddiweddar mewn perthynas â phob blaenoriaeth gorfforaethol yn y Cynllun:

- **Blaenoriaeth tai:** Roedd y gofrestr newydd ar gyfer Tai Fforddiadwy, Tai Teg, wedi cael ei hail-lansio'n ddiweddar ar y cyd â Grŵp Cynefin. Roedd disgwyl i'r grŵp defnyddwyr mwyaf ar gyfer y gofrestr hon fod yn bobl cyflogedig 25 i 34 oed
- **Clymu Cymunedau:** Roedd cwmpas 4G wedi gwella yn y sir dros y misoedd diwethaf, roedd bellach yn unol â'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer Cymru. Roedd prosiect ar Bwyntiau Mynediad Digidol wedi cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Dyfodol Digidol yn ystod yr haf. Oherwydd y posibilrwydd na fyddai'r prosiect hwn yn darparu newid hirdymor ac yn gwireddu gwerth am arian, penderfynwyd peidio â gweithredu'r prosiect.
- **Cymunedau Cryf:** Roedd statws y flaenoriaeth hon yn parhau fel 'blaenoriaeth i'w gwella' oherwydd bod gwaith ar y gweill i ddod â nifer o wahanol wasanaethau ac asiantaethau ynghyd i weithio ar ddatblygu Prosiect Cefnogi Gofalwyr ac achos busnes ar gyfer prosiect 'Gweithredu i leihau Cam-Drin Domestig yn Sir Ddinbych'. Roedd gwaith ar y gweill hefyd ar brosiect yn ymwneud â chreu sir sy'n 'Gyfeillgar i Ddementia'.
- **Yr Amgylchedd:** Roedd gwaith yn parhau er mwyn sicrhau bod stoc dai'r Cyngor yn cyflawni cyfradd ynni 'C' erbyn diwedd y Cynllun Corfforaethol
- **Pobl Ifanc:** Roedd Bwrsari Cyflogaeth Sir Ddinbych yn y broses o gael ei lansio.

Wrth ymateb i gwestiynau aelodau fe wnaeth yr Aelod Arweiniol a'r Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol:

- sicrhau'r Pwyllgor, er gwaethaf y ffaith bod dangosfwrdd y rhaglen yn dangos statws 'mewn perygl' ar gyfer ysgol ardal newydd Carreg Emlyn, nid oedd y prosiect mewn perygl ac roedd y gwaith adeiladu wedi hen ddechrau. Roedd y statws perygl yn bodoli oherwydd yr oedi a gafwyd ar y dechrau wrth nodi safle dewisedig;
- dweud bod lleoliadau prosiectau tai gofal ychwanegol yn cael eu pennu yn ôl yr angen am y math hwnnw o lety mewn ardal ynghyd â hyfywedd economaidd gweithredu'r math hwnnw o gyfleuster. Byddai llety Gofal Ychwanegol yn golygu bod angen nifer ddigonol o unedau i sicrhau bod ei gostau gweithredu yn cael eu talu;

- cadarnhau bod gwasanaethau a chefnogaeth i Ofalwyr yn ymddangos yn amlwg yn y Cynllun Corfforaethol. Roedd Strategaeth Gofalwyr y Cyngor wedi cael ei archwilio gan y Pwyllgor Craffu Partneriaethau yn ddiweddar ac roedd disgwyl i Adroddiad Gwybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael i Ofalwyr Ifanc gael ei gylchredeg i aelodau'r Pwyllgor hwnnw yn y dyfodol agos. Roedd Bwrdd Prosiect Blaenoriaeth Gorfforaethol Cymunedau a'r Amgylchedd wedi ystyried achos busnes yn ddiweddar i gefnogi'r Strategaeth Gofalwyr;
- hysbysu'r Pwyllgor bod y rhaglen i blannu 2,200 o goed yn y Rhyl a Dinbych Uchaf wedi'i hariannu'n allanol a'i bod yn gysylltiedig â'r agenda lles, dyna pam mae'r rhaglen blannu yn gyfyngedig i wardiau mwyaf amddifad y cyngor sir. Roedd Gwasanaethau Cefn Gwlad y Cyngor yn gweithio'n ddiwyd gydag ysgolion, cynghorau dinas, tref a chymuned ar brosiectau a chyfleoedd eraill i blannu coed;
- dweud bod Gwasanaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata'r Cyngor yn gweithio gyda'r Cynllun Tai Teg er mwyn ei hyrwyddo a thynnu sylw preswylwyr at ei fodolaeth;
- dweud bod yr hyn sy'n gwneud eiddo yn 'eiddo fforddiadwy' yn cael ei bennu ar sail fformiwla cenedlaethol graddedig;
- cadarnhau bod achos busnes wedi'i gymeradwyo'n ddiweddar i hwyluso penodiad Swyddog Cartrefi Gwag; a
- cadarnhau bod Strategaeth Gyfathrebu ar gyfer prosiectau'r Byrddau Rhaglen yn eitem sefydlog ar agenda busnes y ddau Fwrdd

Croesawodd Aelodau y ffaith bod y prosiect i wneud Sir Ddinbych yn Gyfeillgar i Ddementia ar y cyd â Chymdeithas Alzheimer's yn cael ei gynnwys yn y flaenoriaeth gorfforaethol Cymunedau Cryf a bod y cynnig i gynnwys gweithgareddau i gefnogi rhieni yn rhan o'r flaenoriaeth gorfforaethol Pobl Ifanc.

Cofrestrodd y Pwyllgor eu pryderon ynglŷn â'r cynnydd yn nifer yr achosion o gam-drin domestig sy'n cael ei adrodd, ond cydnabuwyd bod hyn yn rhannol o ganlyniad i newid yn y ffordd y caiff digwyddiadau eu cofnodi ac ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth.

Gofynnodd aelodau'r Pwyllgor i ddigwyddiadau bioamrywiaeth cymunedol, megis gweithgareddau plannu coed, gael eu hysbysebu i gynulleidfaoedd ehangach er mwyn gwella lefelau cyfranogi ac fel bo mwy o waith yn digwydd ar y cyd rhwng y Cyngor Sir, cynghorau dinas, tref a chymuned a busnesau lleol ar waith a mentrau twristiaeth.

Ar ddiwedd y drafodaeth, aeth y Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol a'r Cydlynydd Craffu ati i gael:

- ffigyrau am nifer y bobl a gafodd help i gael mynediad at dai trwy wahanol gynlluniau gan y llywodraeth a gwybodaeth am yr hyn y tybiwyd sy'n berfformiad boddhaol mewn perthynas â helpu pobl i brynu eu cartref;
- gwybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael i fentrau cefn gwlad a bioamrywiaeth ledled y sir gan y tîm sy'n gweithio yn Loggerheads;
- gwybodaeth am hyd y cytundebau cynnal a chadw sy'n gysylltiedig â choed a blannwyd o dan y cynllun plannu coed PLANT; a

- manylion ynglŷn â phryd y byddai adroddiad ar Strategaeth Arwyddion Twristiaeth ar gyfer y sir yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau

***PENDERFYNWYD:* - Yn amodol ar y sylwadau uchod a darparu'r wybodaeth ofynnol i gydnabod perfformiad y Cyngor, ar ddiwedd Chwarter 2 2018-19, wrth ddarparu ei Gynllun Corfforaethol a gwella canlyniadau i ddinasyddion y sir**

## 7 CWYNION EICH LLAIS CHWARTER 2

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Datblygu Isadeiledd Cymunedol adroddiad ac atodiadau gan y Swyddog Cwynion Statudol a Chorfforaethol (eisoes wedi'u cylchredeg) a oedd yn rhoi manylion perfformiad y Cyngor wrth ymdrin ag adborth cwsmeriaid yn ystod ail chwarter blwyddyn adrodd 2018-19. Roedd yr adroddiad hefyd yn darparu enghreifftiau penodol o'r ffordd yr oedd gwasanaethau'r Cyngor wedi defnyddio'r wybodaeth a loffwyd o gwynion ac adborth i wella gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.

Roedd adroddiadau chwarterol ar y broses gwynion wedi dangos perfformiad ardderchog cyson wrth ymdrin â chwynion a'u datrys. Yr unig gŵyn a oedd wedi methu'r dyddiad targed yn ystod chwarter 2 oedd cwyn Cam 2 yn ymwneud â'r Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, lle methwyd y dyddiad targed o ganlyniad i wall dynol. Ar sail perfformiad da cyson y Cyngor wrth ymdrin â chwynion y Pwyllgor:

***PENDERFYNWYD:* -**

***(i) cydnabod y perfformiad ardderchog cyson wrth ymateb a datrys cwynion a gyflwynir o dan ei bolisi adborth cwsmeriaid 'Eich Llais' a'r weithdrefn gwyno statudol; a***
***(ii) bod yr adroddiad yn y dyfodol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor bob chwarter fel 'Adroddiad Gwybodaeth' i'w alluogi i barhau i fonitro cydymffurfedd â'r polisi a galw i mewn unrhyw Wasanaeth sy'n tanberfformio'n neu'n methu â chydymffurfio â'r polisi a'r weithdrefn 'Eich Llais' yn rheolaidd.***

## 8 DANGOSFWRDD YMDRECH CWSMERIAID

**Dangosfwrdd Ymdrech Cwsmeriaid – Adroddiad Diweddaru Ch2:** Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Datblygu Isadeiledd Cymunedol adroddiad ac atodiadau'r Rheolwr Gwella Gwasanaethau (eisoes wedi'u cylchredeg) a oedd yn rhoi trosolwg i'r Pwyllgor o ganlyniadau ymdrech cwsmeriaid a boddhad cwsmeriaid a oedd yn deillio o'u cysylltiad â'r Cyngor. Roedd yr atodiadau'n cynnwys yr adroddiad perfformiad blynyddol ar effeithiolrwydd y Gwasanaethau i ymdrin ag ymholiadau (a oedd yn cynnwys ffigyrau gwirioneddol yn ogystal â chanrannau), enghreifftiau o eiriau cwsmeriaid a chynigion ar gyfer gwella gwasanaethau yn y dyfodol ynghyd â throsolwg o'r tuedd hirdymor mewn perthynas â boddhad y cyhoedd â'r ffordd y mae'r Cyngor yn ymdrin â'u hymholiadau.

Dywedodd y Rheolwr Gwella Gwasanaethau wrth yr Aelodau bod ystadegau sy'n dangos bod y cyhoedd wedi gorfod gwneud llai o ymdrech i olrhain eu hymholiad yn golygu bod y Gwasanaeth wedi perfformio'n well i drin a datrys yr ymholiad. Dywedodd y Rheolwr hefyd bod gwaith ar y gweill ar hyn o bryd, fel rhan o ddarparu'r flaenoriaeth gorfforaethol 'Clymu Cymunedau' yn y Cynllun Corfforaethol, i uwchraddio gwefan y Cyngor er mwyn galluogi ac annog mwy o breswylwyr i drafod eu busnes gyda'r Cyngor yn electronig. Trefnwyd bod achos busnes yn ymwneud â hyn, a fyddai'n cynnwys gwaith i uwchraddio gwefan y Cyngor, yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Rhaglen Cymunedau a'r Amgylchedd ym mis Ionawr 2019.

Ar ddiwedd trafodaeth y Pwyllgor:

***<u>Penderfynwyd</u>*: ar ôl ystyried yr holl wybodaeth a'r data a ddarparwyd -**

***(i) cydnabod y tuedd cynyddol parhaus ym moddhad y cyhoedd â pherfformiad y Cyngor i ymdrin â'u ymholiadau; a***
***(ii) yn y dyfodol bod yr adroddiad Dangosfwrdd Ymdrech Cwsmeriaid yn cael ei gyflwyno i aelodau bob chwe mis fel 'Adroddiad Gwybodaeth' i'w galluogi i barhau i fonitro boddhad y cyhoedd â pherfformiad Gwasanaethau i ymdrin ag ymholiadau a galluogi'r Pwyllgor i alw i mewn unrhyw Wasanaeth sy'n tanberfformio'n rheolaidd o ran darparu gwasanaethau***

**9 RHAGLEN WAITH CRAFFU**

Cyflwynodd y Cydlynydd Craffu y flaenraglen i'r Pwyllgor. Hysbyswyd Aelodau o'r posibilrwydd y byddai llwyth gwaith y cyfarfod nesaf yn un trwm a gofynnodd a hoffai'r aelodau ail-drefnu eitemau penodol.

Safonau'r Gwasanaeth Llyfrgell – Oherwydd yr oedi yng ngwaith Llywodraeth Cymru i asesu adroddiadau ar safonau llyfrgelloedd cyhoeddus eleni, cafodd yr eitem hon ei gohirio tan y cyfarfod nesaf ym mis Ionawr 2019.

Golygai hynny bod pum eitem bosibl (gan gynnwys y pwnc trwm o Arholiadau Allanol a Wiriwyd ac Asesiadau Athrawon) wedi'u trefnu ar gyfer cyfarfod mis Ionawr ac roedd hynny'n peri pryder o ran dichonoldeb. Cytunodd y Pwyllgor ohirio'r eitemau ar yr Asesiadau Effaith o Effeithiolrwydd Lles a'r Strategaeth Ddrafft Rheoli Fflyd y Cyngor tan gyfarfod diweddarach gan adael agenda Ionawr 2019 i gynnwys:
1. Arholiadau Allanol a Wiriwyd ac Asesiadau Athrawon.
2. Adroddiad Cenedlaethol ar Reoli Gwastraff yng Nghymru a
3. Safonau Gwasanaeth Llyfrgell 2017/18.

Yng nghyfarfod Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu roedd y Grŵp wedi gofyn i'r Pwyllgor Craffu ar Berfformiad i ystyried adroddiad ar Wasanaethau Tai yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2019.

Tynnodd y Cydlynydd Craffu sylw'r aelodau at gopi o'r "ffurflen gynnig i Aelodau" a oedd yn gynwysedig gydag Atodiad 2. Dywedodd y Cydlynydd Craffu wrth y

Pwyllgor, os oedd ganddynt unrhyw eitemau i'w cyflwyno i'w craffu, y dylent lenwi ffurflen gynnig a'i hanfon ati hi erbyn canol yr wythnos ganlynol, fel bo modd eu hystyried yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu.

Atgoffwyd Aelodau bod penderfyniadau'r Pwyllgor i'w gweld yn atodiad 4.

***PENDERFYNWYD – yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.***

**10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU**

Nid oedd unrhyw adborth i'w adrodd.

Daeth y cyfarfod i ben am 13:00

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Craffu Perfformiad** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **31 Ionawr 2019** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Yr Aelod Arweiniol dros Addysg, Plant a Phobl Ifanc/ Pennaeth Gwasanaethau Addysg a Phlant** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Prif Reolwr Addysg ac Arweinydd Uwchradd a Chynradd GwE** |
| **Teitl:** | **Canlyniadau Arholiadau Allanol a Wiriwyd 2018** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Perfformiad arholiadau CA4 ac ôl 16 wedi'u dilysu yn ysgolion uwchradd Sir Ddinbych.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Darparu gwybodaeth ynglŷn â pherfformiad ysgolion Sir Ddinbych yn arholiadau allanol 2018.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr aelodau'n adolygu a chyflwyno sylwadau ar berfformiad ysgolion yn erbyn y perfformiad blaenorol a chytuno ar feysydd i'w gwella.

## 4. Data Cymharol Cyfnod Allweddol 4

Mae'r adroddiad hwn yn wahanol i flynyddoedd blaenorol er mwyn cymryd i ystyriaeth bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno newidiadau sylweddol i'r ffordd y caiff mesurau perfformiad eu hadrodd.  Yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gyhoeddi asesiadau athrawon yn y dyfodol, nid oes unrhyw wybodaeth gymharol na gwybodaeth feincnodi ar gael.

Mae'r newidiadau sylweddol i batrwm a nifer y disgyblion a safodd arholiadau yn ystod Haf 2018 wedi cael effaith ar ganlyniadau, fel y gwelir yn y ffaith bod cyfran y graddau A* i C ar draws yr holl bynciau yng Nghymru wedi gostwng o 1.2pc i 61.6%. Mae TGAU yn y broses o gael eu diwygio, ac fe gafodd 15 o bynciau diweddaredig eu sefyll am y tro cyntaf yn ystod yr haf hwn.  Cafodd y gyfres newydd o gymwysterau TGAU Gwyddoniaeth eu harchwilio am y tro cyntaf yn 2018, ac mae'n cyd-fynd â'r newidiadau i ddangosyddion perfformiad CA4, i gynnwys un canlyniad yn unig ar gyfer Gwyddoniaeth, fel dau fesur yn y dangosydd 9 wedi'i gapio.

Mae newidiadau sylweddol wedi bod i ffiniau graddau ers haf 2017 a mis Tachwedd 2017 o'u cymharu â haf 2018, yn arbennig ar radd C mewn Saesneg a mathemateg. Mae hyn wedi'i gwneud yn anodd i rai ysgolion sicrhau eu bod yn gwneud rhagamcanion ac yn gosod y targedau cywir.  Ers mis Medi, mae ysgolion a swyddogion wedi gofyn am eglurhad ar y rhesymau dros y cynnydd. Ym mis Hydref,

cyhoeddodd Cymwysterau Cymru adroddiad ar ffiniau graddau Saesneg yn benodol. Er gwaethaf canfyddiadau Cymwysterau Cymru, mae penaethiaid ein hysgolion uwchradd ynghyd â swyddogion yn gytûn bod penderfyniadau'n ymwneud â chofrestru wedi dylanwadu'n gryf ar ddata ysgolion Sir Ddinbych.

Dadansoddiad o ganlyniadau Sir Ddinbych yn seiliedig ar Ddadansoddiad Cychwynnol prif ddangosyddion  Llywodraeth Cymru. Yn 2018, roedd gostyngiad yng nghanran pob un o'r prif ddangosyddion o'i gymharu â 2017, ac yn arbennig mewn Gwyddoniaeth a'r Sgôr Capio 9.

| Mesuryddion Perfformiad | 2017 | 2018 | Cymru 18 |
|---|---|---|---|
| TL2+ | 50.0 | 47.5 | 55.1 |
| TL2 | 63.6 | 59.8 | 66.9 |
| TL1 | 90.2 | 87 | 93.6 |
| SAESNEG | 59.2 | 55.8 | 62.6 |
| CYMRAEG | 79.3 | 77.6 | 74.3 |
| MATHEMATEG | 53.5 | 50.8 | 59.4 |
| RHIFEDD | 55.6 | 54 | 58 |
| MATHEMATEG (Gorau o'r 2) | 58.4 | 57.0 | 63.5 |
| GWYDDONIAETH | 66.8 | 54.3 | 63 |
| 5A*/A | 14.4 | 12.3 | 18 |
| SGÔR CAPIO 9 | 333.9 | 323.5 | 350.1 |
| PRESENOLDEB | 93.7 | 93.5 | 93.9 |

Mae canlyniadau wedi'u dilysu mewn Cymraeg wedi aros yn gyson uchel. Cofrestrodd 22% o ddisgyblion blwyddyn 11 Sir Ddinbych ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf, o'i gymharu â 17.3% yn genedlaethol. Mae perfformiad L2 Saesneg wedi gostwng 3.4%, ond mae perfformiad Sir Ddinbych wedi cael ei effeithio'n sylweddol gan gynnydd sydyn yn ffiniau graddau Saesneg yn ystod Haf 2018. (Atodiad 1)

Er bod cynnydd tebyg a sylweddol i ffiniau graddau mathemateg a rhifedd yn 2018, roedd gostyngiad llai mewn Mathemateg yn Sir Ddinbych. O ganlyniad, mae rhifedd a'r canran o ddysgwyr a enillodd un o'r ddau wedi effeithio'r cynnydd disgwyliedig yn nangosydd TL2+.  O ganlyniad, mae perfformiad L2+ 3.7% yn is. Oherwydd newidiadau i'r cymhwyster Gwyddoniaeth, ni ellir cymharu â pherfformiad 2017.

Er bod y bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched wedi cynyddu yn bron bob un o'r dangosyddion, a hynny'n bennaf o ganlyniad i ostyngiad ym mherfformiad bechgyn, ond y mae hefyd yn wir bod perfformiad merched yn L2+, Saesneg, mathemateg, rhifedd a'r gorau o'r ddau wedi gwella. Er gwaethaf yr anwadalwch yn y ffiniau graddau, perfformiodd merched yn well yn 2018 o'i gymharu â 2017.

Mae perfformiad disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd) ar y dangosydd L2+ wedi cynyddu'n sylweddol yn 2018, ac o ganlyniad, mae perfformiad yn 2018 yn unol â chyfartaledd Cymru i raddau helaeth, 27.5% yn Sir Ddinbych, 29.4% yng Nghymru.  Mewn nifer o ddangosyddion, mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad disgyblion PYDd a'r rheiny nad ydynt yn cael PYDd, wedi gostwng.

**Gwaharddiadau**

Yn 2016-17, roedd 0.5 gwaharddiad parhaol fesul 1,000 o ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir ac unedau atgyfeirio disgyblion yn Sir Ddinbych. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â chyfradd Cymru o 0.4. Yn Sir Ddinbych, roedd 1.6 gwaharddiad cyfnod penodol dros bum niwrnod fesul 1000 o ddisgyblion mewn ysgolion a gyhelir ac

unedau atgyfeirio disgyblion yn Sir Ddinbych. Mae hyn yn llai na'r ffigwr cenedlaethol o 1.9. Mae gwaharddiadau cyfnod penodol o bum niwrnod neu lai yn sylweddol is na'r gyfradd genedlaethol (104.5 fesul 100 o ddisgyblion) yn ein hysgolion arbennig, sydd ar 81.8. Mae ein hysgolion prif ffrwd yn gwahardd ar gyfradd o 102.8 fesul 1000 o ddisgyblion, o'i gymharu â'r gyfradd genedlaethol o 32.4. (Atodiad 3)

**Presenoldeb**

Mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd wedi gwella o 0.8% dros y pum mlynedd diwethaf, o 84.3% yn 2012-3 i 95.1% yn 2017, mae hyn y uwch na chyfartaledd Cymru o 94.9%. Dros y tair blynedd diwethaf, ychydig o wahaniaeth sydd wedi bod rhwng y rhywiau ac mae'r gwahaniaeth rhwng disgyblion PYDd a disgyblion nad ydynt yn cael PYDd wedi lleihau yn ystod y cyfnod hwn. Mae presenoldeb mewn ysgolion Uwchradd wedi gostwng o 0.2% yn y flwyddyn ddiwethaf, fodd bynnag, mae tuedd cyffredinol o gynnydd o 1.2% wedi bod ers 2013, o 92.4% i 93.5% yn 2018, mae hyn yn gosod yr ALl yn 17eg yng Nghymru a chyfartaledd Cymru o 93.%.

Mae'r bwlch rhwng y rhywiau wedi gostwng 0.2% yn 2017 o 0.5% yn 2016. Mae'r bwlch rhwng disgyblion PYDd a disgyblion nad ydynt yn cael PYDd wedi aros yn gyson ar 5.7% yn 2018. (Atodiad 4)

**Cryfderau a llwyddiannau**

- Ysgolion cynhwysol, nodir hefyd bod cydweithio cryf i ddatblygu darpariaeth a chwricwlwm eang a chytbwys ar gyfer pob dysgwr.
- Perfformiad Cymraeg iaith gyntaf yn gyson uchel.
- Presenoldeb ysgolion cynradd
- Gwelliannau sylweddol mewn ysgolion penodol ar rai dangosyddion.
- Cynnydd ym mherfformiad disgyblion PYDd

**Meysydd i'w gwella**

- Gwella perfformiad mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 4
- Mewn ysgolion penodol, parhau i wella ansawdd arweinyddiaeth ac arbenigeddau adrannol mewn pynciau craidd.
- Presenoldeb ysgolion uwchradd.
- Gwaharddiadau cyfnod penodol o bum niwrnod neu lai
- Lleihad mewn amrywiant ysgol yn enwedig ar draws pynciau craidd

**Cyfnod Allweddol 5**

| Mesuryddion Perfformiad | 2017 | 2018 | + / - 2017/2018 | Cymru 2018 |
|---|---|---|---|---|
| Chweched Dosbarth - % o ddisgyblion 17 mlwydd oed sydd wedi llwyddo i ennill Lefel 3 | 97.5 | 98.2 | +0.7 | 97.6 |
| Chweched Dosbarth - % o ddisgyblion 17 | 9.9 | 10.4 | +0.5 | 13.4 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| mlwydd oed sydd wedi llwyddo i ennill 3 A* - A | | | | |
| Chweched Dosbarth - % o ddisgyblion 17 mlwydd oed sydd wedi llwyddo i ennill 3 A* - C | 51.0 | 53.6 | +2.6 | 58.1 |

**Cryfderau a llwyddiannau**

- Perfformiad gwell ym mhob un o'r tri phrif Ddangosydd Perfformiad Allweddol cenedlaethol ôl 16, gyda L3 uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Atodiad 2

**Meysydd i'w gwella**

- Parhau i wella canlyniadau gan ddefnyddio'r Gwasanaeth Llyfrgell a Chyhoeddiadau'r Cynulliad i osod targedau a thracio.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r adroddiad hwn yn cyfrannu at y flaenoriaeth gorfforaethol Pobl Ifanc: Man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo a chanddynt y sgiliau i wneud hynny.
Gweld pob plentyn sy'n cyflawni'r safon a ddisgwylir ar ddiwedd yr ysgol gynradd (Lefel 4, Cyfnod Allweddol 2) yn cyflawni 5 TGAU A*-C (Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4), gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg (iaith 1af) a Mathemateg, erbyn diwedd yr ysgol uwchradd.

**6. Beth fydd cost hyn a beth fydd ei effaith ar wasanaethau eraill?**

***Amherthnasol***

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

*Sir Ddinbych ffyniannus*
*Sir Ddinbych wydn*
*Sir Ddinbych iachach*
*Sir Ddinbych fwy cyfartal*
*Sir Ddinbych gyda chymunedau cydlynol*
*Sir Ddinbych lle mae diwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu*
*Sir Ddinbych sy'n gyfrifol yn fyd-eang*

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Craffu ac eraill?**

Amherthnasol

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Amherthnasol

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

- Bydd yr Awdurdod Lleol a GwE yn parhau i herio Penaethiaid a rheolwyr ysgolion i sicrhau bod yr ysgolion yn cymryd y camau gweithredu priodol er mwyn gwella safonau.
- Lleihau unrhyw risgiau i gefnogaeth a heriau yn ysgolion Sir Ddinbych, mae Swyddogion Addysg yn yr Awdurdod yn monitro ac yn asesu ansawdd y gwasanaeth addysg rhanbarthol (GwE).
- Sicrhau gwelliant yng nghanlyniadau arholiadau allanol.
- Parhau i wella yn erbyn y gostyngiad yng Ngrant Llwybrau Dysgu 14-19 a chyllid TRAC Cronfa Gymdeithasol Ewrop.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae Erthygl 7.4.2(b) o Gyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau’r Pwyllgor Archwilio mewn perthynas ag adolygu amcanion perfformiad a pholisi.

**Swyddog Cyswllt:**
Prif Reolwr Addysg
Ffôn: 01824 708027

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Appendix 1**

## Denbighshire 2018 for Level 2 inc.English/Welsh & Maths

| | 2018 | | | School's Target |
|---|---|---|---|---|
| | No. Pupils | Passes | % | |
| Rhyl High School | 134 | 47 | 35.1 | 43.6 |
| Prestatyn High School | 246 | 114 | 46.3 | 58.6 |
| Ysgol Glan Clwyd | 146 | 85 | 58.2 | 69.8 |
| Denbigh High School | 61 | 29 | 47.5 | 56.5 |
| Ysgol Dinas Bran | 138 | 82 | 59.4 | 65.5 |
| Ysgol Brynhyfryd | 163 | 120 | 73.6 | 80.4 |
| Blessed Edward Jones | 56 | 20 | 35.7 | 49.2 |
| St Brigid's School | 50 | 34 | 68.0 | 76 |
| Special schools | 31 | 0.0 | 0.0 | 0 |
| EOTAS/PRU | 90 | 0 | 0.0 | 0 |
| DCC | **1,115** | **531** | **47.6** | **9.0** |
| Wales | | | **55.0** | |



**Stockholder Targets**

| | 2013 | | | 2014 | | | 2015 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhyl High School | 130 | 68 | 52.3 | 153 | 83 | 54.2 | 154 | 87 | 56.5 |
| Prestatyn High School | 275 | 138 | 50.2 | 287 | 161 | 56.1 | 290 | 180 | 62.1 |
| Ysgol Uwchradd Glan Clwy | 168 | 127 | 75.6 | 152 | 111 | 73.0 | 173 | 133 | 76.9 |
| Denbigh High School | 138 | 74 | 53.6 | 128 | 84 | 65.6 | 111 | 73 | 65.8 |
| Ysgol Dinas Bran | 152 | 94 | 61.8 | 162 | 104 | 64.2 | 158 | 104 | 65.8 |
| Ysgol Brynhyfryd | 200 | 150 | 75.0 | 205 | 156 | 76.1 | 201 | 158 | 78.6 |
| Blessed Edward Jones | 78 | 41 | 52.6 | 134 | 73 | 54.5 | 113 | 62 | 54.9 |
| St Brigid's School | 57 | 48 | 84.2 | 59 | 52 | 88.1 | 57 | 53 | 93.0 |
| Special/PRU | 105 | 0 | 0.0 | 24 | 0 | 0.0 | 29 | 0 | 0.0 |
| **Total** | **1,303** | **740** | **56.8** | **1,304** | **824** | **63.2** | **1,286** | **850** | **66.1** |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Appendix 2

## Key Stage 5 (A Level & Level 3) Exam Results 2018

**Thresholds & Grades**

| | | | Main Indicator | | | A-Level Grade | | | | | | | | | | | | Vocational Awards | | | | | Welsh Baccalaureate | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | No. entered 2+ | L3 (2 A*-E) | | 2017 L3 | A* | A | B | C | D | E | U | X | % A* | % A*-A | %A*-C | %A*-E | Distinction * | Distinction | Merit | Pass | Other | Advanced | Advanced | Advanced |
| Name | Year 13 pupils | | No. | % | % | No. | No. | No. | No. | No. | No. | No. | No. | % | % | % | % | No. | No. | No. | No. | No. | Number participating | Number Passed | % |
| Prestatyn High School | 124 | 119 | 117 | 98.3 | 96.0 | 12 | 20 | 58 | 80 | 48 | 29 | 5 | 0 | 4.8 | 12.7 | 67.5 | 98.0 | 0 | 55 | 16 | 7 | 0 | 13 | 13 | 100.0% |
| Ysgol Glan Clwyd | 62 | 54 | 54 | 100.0 | 96.0 | 9 | 32 | 50 | 63 | 46 | 7 | 2 | 0 | 4.3 | 19.6 | 73.7 | 99.0 | 0 | 5 | 1 | 4 | 0 | 59 | 59 | 100.0% |
| Denbigh High School | 30 | 30 | 30 | 100.0 | 100.0 | 2 | 10 | 21 | 21 | 11 | 3 | 2 | 0 | 2.9 | 17.1 | 77.1 | 97.1 | 8 | 1 | 1 | 0 | 0 | 5 | 5 | 100.0% |
| Ysgol Dinas Bran | 54 | 37 | 36 | 97.3 | 96.0 | 3 | 22 | 26 | 36 | 15 | 4 | 0 | 0 | 2.8 | 23.6 | 82.1 | 100.0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 14 | 8 | 57.1% |
| Ysgol Brynhyfryd | 74 | 67 | 67 | 100.0 | 100.0 | 21 | 61 | 71 | 44 | 27 | 10 | 0 | 0 | 9.0 | 35.0 | 84.2 | 100.0 | 1 | 0 | 2 | 0 | 0 | 172 | 172 | 100.0% |
| St Brigid's School | 30 | 30 | 30 | 100.0 | 100.0 | 8 | 18 | 21 | 24 | 8 | 2 | 2 | 0 | 9.6 | 31.3 | 85.5 | 97.6 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 5 | 5 | 100.0% |
| LA Total | 374 | 337 | 334 | 99.1% | 98.0 | 55 | 163 | 247 | 268 | 155 | 55 | 11 | - | 5.8 | 22.9 | 76.8 | 98.8 | 9 | 63 | 20 | 12 | - | 268 | 262 | 97.8% |
| Wales | 0.0 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 8.7 | 26.3 | 76.3 | | | | | | | | | 97.7% |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

# Exclusions from 1 September 2016 to 30 June 2017

## Denbighshire Totals

| | |
|---|---|
| **Permanent Exclusions** | **11** |
| **Fixed Exclusions** | **1400** |
| **Days Lost** | **2184.0** |

***Middle***

| | |
|---|---|
| **Permanent Exclusions** | **0** |
| **Fixed Exclusions** | **17** |
| **Days Lost** | **29.5** |

| *School* | *Permanent Exclusions* | *Fixed Exclusions* | *Days Lost* |
|---|---|---|---|
| St Brigid's School | 0 | 17 | 29.5 |

*Primary*

| | |
|---|---|
| **Permanent Exclusions** | **3** |
| **Fixed Exclusions** | **156** |
| **Days Lost** | **288.0** |

| *School* | *Permanent Exclusions* | *Fixed Exclusions* | *Days Lost* |
|---|---|---|---|
| Christ Church CP School | 1 | 49 | 93.5 |
| Ysgol Llywelyn | 1 | 13 | 48.0 |
| Ysgol Emmanuel | 0 | 38 | 45.0 |
| Ysgol Mair | 0 | 13 | 28.5 |
| Ysgol Bryn Collen | 0 | 10 | 23.0 |
| Ysgol Penmorfa | 1 | 4 | 16.0 |
| Ysgol Frongoch | 0 | 5 | 7.0 |
| Ysgol Melyd | 0 | 5 | 7.0 |
| Bodnant Community School | 0 | 5 | 4.5 |
| Ysgol Bryn Hedydd | 0 | 4 | 4.5 |
| Ysgol Pendref | 0 | 3 | 2.5 |
| Ysgol y Castell | 0 | 2 | 2.5 |
| Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd | 0 | 2 | 2.0 |
| Ysgol Bodfari | 0 | 1 | 1.5 |
| Ysgol Bro Elwern | 0 | 1 | 1.5 |
| Ysgol y Llys | 0 | 1 | 1.0 |

## Pupil Referral Unit

**Permanent Exclusions** **0**

**Fixed Exclusions** **8**

**Days Lost** **28.5**

| School | Permanent Exclusions | Fixed Exclusions | Days Lost |
|---|---|---|---|
| PRU | 0 | 8 | 28.5 |

## Secondary

**Permanent Exclusions** **8**

**Fixed Exclusions** **1202**

**Days Lost** **1818.5**

| School | Permanent Exclusions | Fixed Exclusions | Days Lost |
|---|---|---|---|
| Prestatyn High School | 2 | 604 | 761.0 |
| Rhyl High School | 0 | 206 | 353.5 |
| Blessed Edward Jones RC High School | 4 | 112 | 265.5 |
| Ysgol Dinas Bran | 1 | 132 | 220.0 |
| Denbigh High School | 1 | 83 | 132.5 |
| Ysgol Glan Clwyd | 0 | 49 | 63.5 |
| Ysgol Brynhyfryd | 0 | 16 | 22.5 |

*Special*

| | |
|---|---|
| **Permanent Exclusions** | **0** |
| **Fixed Exclusions** | **17** |
| **Days Lost** | **19.5** |

| *School* | *Permanent Exclusions* | *Fixed Exclusions* | *Days Lost* |
|---|---|---|---|
| Ysgol Tir Morfa | 0 | 17 | 19.5 |

**Appendix 4**
**All school attendance 2017-18**

**Secondary Schools**

| | |
|---|---|
| Blessed Edward Jones | 88.2% |
| Denbigh High | 91.3% |
| Prestatyn High | 93.5% |
| Rhyl High | 92.9% |
| St Brigid's Secondary | 94.5% |
| Ysgol Brynhyfryd | 94.5% |
| Ysgol Dinas Bran | 94.1% |
| Ysgol Glan Clwyd | 95.1% |
| **Denbighshire** | **93.5%** |
| **Wales** | **93.9%** |

**Primary Schools**

| | |
|---|---|
| Ysgol Hiraddug | 93.9% |
| Ysgol y Castell | 95.0% |
| Christ Church CP School | 93.9% |
| Ysgol Llywelyn | 92.9% |
| Ysgol y Faenol | 94.1% |
| Ysgol Penmorfa | 93.4% |
| Ysgol Emmanuel | 93.1% |
| Ysgol Dewi Sant | 93.4% |
| Ysgol Melyd | 93.8% |
| Ysgol Bodfari | 94.9% |
| Ysgol Bryn Hedydd | 95.4% |
| Ysgol Esgob Morgan | 95.0% |
| Ysgol Cefn Meiriadog | 94.7% |
| Ysgol Frongoch | 94.8% |
| Ysgol Henllan | 96.0% |
| Ysgol Twm o'r Nant | 93.1% |
| Ysgol Bryn Clwyd | 94.6% |
| Ysgol y Parc | 96.0% |
| Ysgol Gellifor | 95.8% |
| Ysgol Pentrecelyn | 93.2% |
| Ysgol Rhewl | 87.6% |
| Ysgol Betws Gwerful Goch | 96.4% |
| Ysgol Carrog | 95.8% |
| Ysgol Caer Drewyn | 95.0% |
| Ysgol Bro Elwern | 95.7% |
| Ysgol y Llys | 94.8% |
| Ysgol Bryn Collen | 94.8% |
| Rhos Street School | 95.2% |
| Ysgol Pen Barras | 97.1% |
| Ysgol Bro Cinmeirch | 96.8% |
| Ysgol Bro Famau | 93.1% |
| Ysgol Gymraeg y Gwernant | 96.5% |
| Ysgol Clawdd Offa | 92.6% |
| Bodnant Community School | 94.6% |

| | |
|---|---|
| Ysgol Pendref | 93.3% |
| Ysgol Bro Dyfrdwy | 93.8% |
| Ysgol Carreg Emlyn | 95.4% |
| Ysgol Tremeirchion | 96.0% |
| St. Asaph V.P. Infants School | 93.5% |
| Ysgol Llanbedr DC | 95.0% |
| Ysgol Llanfair | 89.9% |
| Ysgol Borthyn | 93.2% |
| Ysgol Pant Pastynog | 95.2% |
| Ysgol Dyffryn Ial | 96.3% |
| Ysgol Mair | 93.2% |
| Ysgol Trefnant | 95.6% |
| St Brigid's | 94.0% |
| **Denbighshire** | **95.1%** |
| **Wales** | **94.9%** |

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Craffu Perfformiad** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **31 Ionawr 2019** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Isadeiledd Cymunedol/Pennaeth Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Marchnata** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Prif Lyfrgellydd** |
| **Teitl:** | **Safonau a Pherfformiad y Gwasanaeth Llyfrgell** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn amlygu perfformiad y Gwasanaeth Llyfrgell yn erbyn Safonau Cenedlaethol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Manylu ar berfformiad y Cyngor ar ddechrau 6ed Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-20 a'r cynnydd a wnaed wrth ddatblygu llyfrgelloedd fel canolfannau cymunedol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Dylai'r Pwyllgor ystyried a chynnig sylwadau ar berfformiad yn erbyn 6ed Fframwaith Safonau Llyfrgell Cyhoeddus Cymru ac ystyried gwneud cais am adroddiad cynnydd ym mis Tachwedd 2019.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 **Safonau Llyfrgell Cyhoeddus Cymru**
Mae dyletswydd statudol ar bob awdurdod llyfrgell yng Nghymru dan Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964 i ddarparu gwasanaeth 'cynhwysfawr ac effeithlon' i'w breswylwyr. Mae'r Fframwaith o Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru yn galluogi i MALD (Adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru) fesur ac asesu sut y mae awdurdodau yn cyflawni eu dyletswyddau statudol.

4.2 Mae'r Gwasanaethau Llyfrgell yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol bob mis Gorffennaf, sy'n nodi eu perfformiad ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol. Yn dilyn hyn bydd MALD yn ymateb ag asesiad ffurfiol yn yr hydref. Mae'r Adroddiad Asesu Blynyddol yn ymwneud â 2017-18 a pherfformiad yn erbyn blwyddyn gyntaf 6ed Fframwaith 2017-20, ac yn cynnwys 12 Hawl Craidd ac 16 Dangosydd Ansawdd. Mae'r adroddiad ynghlwm fel Atodiad A.

4.3 Mae Sir Ddinbych wedi diwallu 11 o'r 12 Hawl Craidd ac wedi diwallu 1 yn rhannol.

4.4 Mae 16 o Ddangosyddion Ansawdd (QI) y mae gan 10 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Sir Ddinbych yn cyflawni 8 yn llawn, 1 yn rhannol ac yn methu cyflawni 1 (manylion ym mharagraff 2.2 yr adroddiad asesu).

4.5 Gwnaethom ddiwallu DA13 yn rhannol ar lefelau staffio a chymwysterau, ond ni wnaethom gyflawni hyn yn llawn gan fod lefel staff y pen yn is na'r targed (adroddwyd 2.48 FTE am bob 10,000 o'r boblogaeth pan fo'r targed yn 3.6) ac mae nifer y staff sydd â chymhwyster llyfrgell cydnabyddedig yn is na'r targed (adroddwyd 0.4 FTE pan fo'r targed yn 0.65). Mae staff rheng flaen a staff rheoli sy'n gweithio yn ein llyfrgelloedd a siopau un alwad yn darparu ystod eang o wasanaethau cwsmer ychwanegol nad ydynt wedi'u cynnwys yng ngofynion Safonau Llyfrgell Cyhoeddus Cymru. Rydym wedi adrodd 50% o'r cyfanswm lefelau staffio a gwariant ar staffio dan y Safonau Llyfrgell.

4.6 Ni wnaethom ddiwallu DA9 ar ddeunydd darllen cyfredol: gwnaethom gaffael 146 eitem newydd (y targed yw 243), gan wario £1203 (targed £2180), am bob 1000 o'r boblogaeth.

4.7 Yn nadansoddiad naratif perfformiad Sir Ddinbych, mae'r adroddiad asesu yn ein canmol ar ehangu nifer y gweithgareddau a digwyddiadau sy'n cael eu cynnig, gyda lefelau presenoldeb yn codi o ganlyniad. Gan adlewyrchu ar nod strategol y gwasanaeth o annog gwasanaethau partner i ddarparu eu gwasanaethau mewn llyfrgelloedd, roedd cynnydd o 95% yn nifer y sesiynau partner gan arwain at bresenoldeb sydd 41% yn uwch. Mae nifer y benthycwyr gweithredol hefyd wedi cynyddu 10%.

4.8 Nid yw MALD yn cyhoeddi tabl data cymharol ledled Cymru, ond mae bob awdurdod yn cael ei restru yn ôl ei berfformiad yn erbyn y Dangosyddion Ansawdd (adran 2.4 yr adroddiad asesu). Yn 2017-18, o'r 22 awdurdod yng Nghymru, roedd Sir Ddinbych yn 2il am ddarparu hyfforddiant anffurfiol y pen i ddefnyddwyr, 4ydd am nifer y benthycwyr gweithredol a nifer y llyfrau Cymraeg a fenthycwyd y pen, a 6ed am nifer yr ymweliadau corfforol ac ymweliadau rhithwir â'r llyfrgelloedd.

4.9 Mae Uned Data Cymru yn cyflwyno Mesur Atebolrwydd Cyhoeddus newydd yn ymwneud â llyfrgelloedd yn 2018-19, yn seiliedig ar ganran y Dangosyddion Ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru a gyflawnwyd. Rydym yn credu bod hyn yn fesur mwy ystyrlon o'i gymharu â'r rhai a ddefnyddiwyd yn y gorffennol mewn perthynas â llyfrgelloedd.

4.10 **Diweddariad ar ddatblygiadau / Canolfannau Cymunedol**
Ailagorodd Llyfrgell Llanelwy ym mis Ebrill 2018 ar ôl ei ailwampio gyda gwell mynedfa, cynllun mewnol newydd gyda chyfrifiaduron newydd i'r cyhoedd eu defnyddio, cyfleusterau cegin cymunedol, a man gwybodaeth i dwristiaid sy'n cynnig adnodd hyblyg i'r gymuned ehangach ei defnyddio. Ailagorodd Llyfrgell Dinbych hefyd ym mis Mehefin 2018 ar ôl ei ailwampio, wedi'i ariannu gan grant MALC Llywodraeth Cymru o £120,000, i ddarparu cyfleuster cymunedol gwell, deniadol a hyblyg, gyda buddsoddiad ychwanegol gan CSDd i sicrhau cynaladwyedd yr adeilad a gwella hygyrchedd yn unol â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd. Gosodwyd to newydd ar Lyfrgell y Rhyl yn ystod y gwanwyn 2018. Mae Wi-Fi Corfforaethol ac

argraffwyr ar gael ym mhob llyfrgell ac mae staff y Cyngor yn defnyddio llyfrgelloedd yn gynyddol i gyfarfod cleientiaid a defnyddio desgiau.

4.11 Mae darpariaeth gwasanaethau cymunedol mewn llyfrgelloedd yn parhau i gynyddu, oherwydd ymdrechion rheolwyr i sefydlu a datblygu partneriaethau, hyblygrwydd y cyfleusterau a llefydd mewn llyfrgelloedd modern, ac effaith y polisi codi tâl diwygiedig a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2018. Mae'r partneriaethau gyda Chyngor Dinas Llanelwy a Chyngor Tref Rhuddlan yn parhau i ddatblygu gyda chyfraniadau cyllid wedi'u cytuno a threfniadau rŵan wedi'u sefydlu ar gyfer mynediad y tu allan i oriau i'r adeiladau, wedi'u hwyluso gan ddeiliaid allwedd wedi'u hyfforddi. Mae rheolwyr llyfrgell yn cynhyrchu adroddiadau diweddaru chwarterol ar weithgareddau a datblygiadau ym mhob llyfrgell (mae enghraifft wedi'i atodi yn Atodiad B)

4.12 Nid yw'r nifer o hawlwyr Credyd Cynhwysol sy'n manteisio ar y gwasanaeth Digidol â Chymorth wedi cael effaith negyddol ar gapasiti, gyda galw cymharol isel oherwydd darpariaeth gwasanaethau wedi'u cydleoli yng Nghanolfan Byd Gwaith y Rhyl. Mae hawlwyr yn defnyddio cyfleusterau mynediad digidol llyfrgelloedd i gadw eu dyddiaduron gwaith CC a chwilio am swyddi. Mae mentoriaid Sir Ddinbych yn Gweithio yn cyfarfod a chefnogi eu cleientiaid yn llyfrgell leol y cleient, ac mae cynlluniau yn cael eu datblygu i ehangu'r ystod o gyfleoedd dysgu i oedolion sy'n cael eu cynnig.

4.13 Mae llyfrgelloedd yn cyfrannu at Gynllun Gweithredu Dementia'r Cyngor mewn sawl ffordd gan gynnwys Llyfrau ar Bresgripsiwn 'Reading Well': Cynllun Dementia a lansiwyd ym mis Hydref 2018 i ddarparu llyfrau wedi'u cymeradwyo yn glinigol i gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr, staff sydd wedi'u hyfforddi fel Ffrindiau Dementia, cydweithredu â chynlluniau Cymunedau Cyfeillgar i Ddementia, a chynnal sesiynau hyfforddi Ffrindiau Dementia. Mae llyfrgelloedd hefyd yn cyfrannu at Gynllun Cefnogaeth i Ofalwyr y Cyngor, gweithio mewn partneriaeth â GOGDdC, trwy ddatblygu casgliadau o lyfrau ar gyfer gofalwyr a bagiau cof, a grwpiau darllen ar gyfer pobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr. Mae'r partneriaid newydd sy'n darparu eu gwasanaethau mewn llyfrgelloedd yn cynnwys y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, Cymraeg i Blant, a Homestart.

4.14 Cymerodd 3,239 o blant ran yn Sialens Ddarllen yr Haf 2018 – gan gyrraedd 29.5% o'r boblogaeth 4-12 oed, yr uchaf yng Nghymru (cyfartaledd Cymru oedd 11.5%).

4.15 **Cydweithio Rhanbarthol**
Mae gwaith yn parhau ar agwedd ranbarthol yng Ngogledd Cymru ar gyfer darparu cynnig iechyd a lles y llyfrgelloedd cyhoeddus, yn seiliedig ar argymhellion astudiaeth ddichonoldeb a ariennir gan MALD, a gynhyrchwyd ym mis Mawrth 2018.

4.16 Mae cwsmeriaid Sir Ddinbych yn parhau i fanteisio o agwedd genedlaethol ar y cyd i gaffael llyfrau llyfrgell a gwasanaethau digidol. Rhoddwyd contractau Cymru Gyfan ar gyfer caffael stoc llyfrau oedolion a plant ar gyfer 2017-20 ym mis Ebrill 2017 gan alluogi Sir Ddinbych i sicrhau gwerth gorau o'i gyllideb deunyddiau. Rhoddwyd contract newydd ar gyfer cyflenwi e-lyfrau ac e-lyfrau sain ym mis Mawrth 2018 gan roi mynediad i gwsmeriaid Sir Ddinbych at adnoddau cyfun gwasanaeth Cymru Gyfan ar y cyd.

4.17 Mae'r gwelliannau pellach sydd wedi'u cynllunio yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol yn cynnwys Strategaeth Llyfrgell newydd ar gyfer Sir Ddinbych, rhaglen ddatblygu a hyfforddi staff, a strategaeth wirfoddoli.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae gan yr Awdurdod gyfrifoldeb statudol i'r Gwasanaeth Llyfrgell, ac mae ei ddarpariaeth gwasanaeth yn cyfrannu at sawl blaenoriaeth gorfforaethol megis maethu cydnerth cymunedol, moderneiddio gwasanaeth, cynhwysiant digidol, llythrennedd, dysgu gydol oes ac ymgysylltu â'r gymuned.

**6. Beth fydd cost hyn a beth fydd ei effaith ar wasanaethau eraill?**

Bydd trawsnewid llyfrgelloedd yn ganolbwyntiau cymunedol yn galluogi i ystod eang o wasanaethau a phartneriaid y cyngor gysylltu â chymunedau lleol drwy'r rhwydwaith o safleoedd a chyfleusterau presennol. Nid oes unrhyw gynnig ariannol ynghlwm â'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

Nid ydym wedi cynnal Asesiad o Effaith ar Les, ond mae'r 6ed Fframwaith o Safonau Llyfrgell wedi'i osod i arddangos bod gan lyfrgelloedd gyfraniad amlwg i'w wneud at saith amcan lles Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Craffu ac eraill?**

Ym mis Mawrth 2018, ystyriodd y Pwyllgor Craffu Perfformiad yr Asesiad o berfformiad Gwasanaeth Llyfrgell yn 2016/17 gan Lywodraeth Cymru. Nid oes unrhyw ymgynghoriad pellach wedi bod o ran yr adroddiad penodol hwn.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Amherthasol.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Amherthnasol

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae Adran 7.4.2(b) Cyfansoddiad y Cyngor yn gosod amod y gall y Pwyllgor Craffu "adolygu a chraffu ar berfformiad y Cyngor mewn perthynas â'i amcanion polisi, targedau perfformiad a/neu feysydd gwasanaeth arbennig".

**Swyddog Cyswllt:**
Prif Lyfrgellydd
Ffôn: 01824 708207

# Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Sir Ddinbych

## Adroddiad Asesu Blynyddol 2017-18

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Sir Ddinbych i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

## 1 Crynodeb gweithredol

Roedd Sir Ddinbych wedi cyflawni 11 o'r 12 hawl graidd yn llawn, ac wedi rhannol gyflawni 1.

O'r 10 dangosydd ansawdd sydd â thargedau, roedd Sir Ddinbych wedi cyflawni 8 yn llawn, 1 yn rhannol ac wedi methu â chyflawni 1.

Mae gwasanaeth llyfrgell Sir Ddinbych ar y cyfan wedi cynnal ei berfformiad yn y flwyddyn gyntaf hon o'r chweched fframwaith, gan gael gwelliannau mewn rhai meysydd a gostyngiadau mewn eraill. Bu cynnydd sylweddol yn nifer y digwyddiadau a'r gweithgareddau sydd ar gael, a chynnydd hefyd yn y nifer sy'n mynychu'r rhain ac yn y nifer sy'n manteisio ar gyfleoedd hyfforddi. Gellir egluro'r cwymp yn y ffigyrau eraill yn ymwneud â defnydd oherwydd cau canghennau wrth i'r gwasanaeth fwrw ymlaen â'i raglen adnewyddu. Mae pwysau cyllidebol wedi effeithio ar y gronfa ddeunyddiau yn enwedig, ond ymddengys bod staffio'r gwasanaeth wedi sefydlogi, ac mae pwyslais i'w groesawu yn y datganiad blynyddol ar ddatblygu'r gweithlu, gyda chynlluniau i ddatblygu strategaeth gwasanaeth a ffocws o'r newydd ar sgiliau proffesiynol.

- Mae pob man gwasanaeth yn cynnig ystod gyflawn o gefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol ac ar gyfer iechyd a lles. Cyflwynodd Sir Ddinbych bedair astudiaeth achos sy'n dangos effaith gadarnhaol y gwasanaeth.
- Parhau i wella y mae'r nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddi defnyddwyr a drefnwyd ymlaen llaw, ac mae'r nifer sy'n cael cymorth drwy hyfforddiant anffurfiol ymhlith yr uchaf yng Nghymru.
- Mae'r gwasanaeth wedi cynyddu nifer ac ystod y gweithgareddau / digwyddiadau sydd ar gael, gyda nifer y mynychwyr wedi codi, ac mae'r perfformiad yn uwch na'r canolrif fesul pen y boblogaeth.
- Mae ymweliadau corfforol a benthyciadau llyfrau wedi gostwng yn 2017-18, gan adlewyrchu cau canghennau dros dro wrth i Sir Ddinbych gynnal rhaglen adnewyddu.
- Mae'r buddsoddiad mewn adnoddau Cymraeg yn dal yn uchel, gyda'r gwasanaeth yn cofnodi'r pedwerydd lefel uchaf o fenthyciadau Cymraeg fesul pen y boblogaeth. Mae pwysau cyllideb wedi effeithio ar fuddsoddi mewn deunyddiau yn fwy cyffredinol.
- Mae lefelau staff wedi sefydlogi, a'r nifer cyffredinol wedi cynyddu yn 2017-18, a dim ond gostyngiad bychan yn nifer y staff cymwysedig. Er nad yw'r targedau wedi'u cyrraedd yma, mae pwyslais o'r newydd ar ddatblygu'r gweithlu a sicrhau fod gan staff y sgiliau priodol.
- Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi gostwng ychydig, ond mae'r gwariant fesul pen yn uwch na lefel y canolrif.

## 2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae’r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau, a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn, ac Adran 3 yn rhoi asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod.

### 2.1 Hawliau craidd

Roedd Sir Ddinbych wedi cyflawni 11 o’r 12 hawl graidd yn llawn, ac wedi rhannol gyflawni hawl graidd 12 gan nad oes strategaeth gwasanaeth ar gael i’r cyhoedd ar-lein. Mae datganiad gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth ar wefan y gwasanaeth, a nodir bod cynllunio busnes manwl yn rhan o gynlluniau adrannol ehangach, ond nid ymddengys fod modd cyfathrebu cyfeiriad strategol ac amcanion y gwasanaeth y tu allan i’r awdurdod. Mae’r gwasanaeth yn amlwg yn cael ei weld fel canolbwynt ar gyfer darparu ystod eang o wasanaethau’r cyngor a’r gymuned, gan fod gweithio mewn partneriaeth yn ganolog i ddarparu gwasanaethau. Datblygwyd strategaeth farchnata dair blynedd i’w chyflwyno o 2018-19, a chynlluniwyd strategaeth datblygu’r gweithlu gyda’r nod o broffesiynoli’r gweithlu ar bob lefel.

### 2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a 10 ohonynt yn cynnwys targedau. O’r rhain, mae Sir Ddinbych yn cyflawni 8 yn llawn, un yn rhannol, ac yn methu â chyflawni un o’r dangosyddion.

| Dangosydd ansawdd | Cyflawni? | |
|---|---|---|
| DA 3 Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol: | | Cyflawni’n llawn |
| a) Cymorth TGCh | ✔ | |
| b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth | ✔ | |
| c) Cymorth e-lywodraeth | ✔ | |
| d) Datblygu darllenwyr | ✔ | |
| DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles | | Cyflawni’n llawn |
| i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau | ✔ | |
| ii) Cynllun Llyfrau Llesol | ✔ | |
| iii) Casgliad penodol i iechyd a lles | ✔ | |
| iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd iach o fyw | ✔ | |
| v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles | ✔ | |
| DA 6 Pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau / gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig | ✔ | Cyflawni’n llawn |
| DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth | ✔ | Cyflawni’n llawn |
| DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | Heb ei gyflawni |
| Derbyniadau fesul pen y boblogaeth | x | |
| <u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen | x | |
| DA 10 Adnoddau Cymraeg | | Cyflawni’n llawn |
| % y gyllideb deunyddiau wedi’i wario ar y Gymraeg | ✔ | |
| <u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen | x | |

| | | |
|---|---|---|
| DA 11 Mynediad ar-lein: | | Cyflawni'n llawn |
| a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngrwyd | ✔ | |
| ii) Darpariaeth Wi-Fi | ✔ | |
| DA 12 Cyflenwi ceisiadau | | Cyflawni'n llawn |
| a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod | ✔ | |
| b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod | ✔ | |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau: | | Cyflawni'n rhannol |
| i) Staff fesul pen y boblogaeth | x | |
| ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth | X | |
| iii) Cymhwyster/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth | ✔ | |
| iv) Canran DPP | ✔ | |
| DA 16 Oriau agor fesul pen y boblogaeth | ✔ | Cyflawni'n llawn |

Ni fu newid ym mherfformiad Sir Ddinbych o'i gymharu â blwyddyn olaf y pumed fframwaith o ran y dangosyddion ansawdd hynny y mae modd eu cymharu'n uniongyrchol.

## 2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei gael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1. Mae'r ffigyrau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod y flwyddyn gyntaf hon o'r fframwaith. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Ni chynhaliodd Sir Ddinbych arolwg defnyddwyr yn ystod 2017-18. Nid oedd y gwasanaeth ychwaith wedi gallu rhoi ffigyrau yn ymwneud â barn defnyddwyr am ei arlwy hyfforddiant; gofynnwyd am gasglu data perthnasol ar gyfer 2018-19.

| Dangosydd perfformiad | | *Safle* | Isaf | Canolrif | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | *amherthnasol* | | 73% | 94% | 97% |
| e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | *amherthnasol* | | 38% | 90% | 95% |
| DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion: | *amherthnasol* | | 75% | 98% | 100% |

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i gael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Sir Ddinbych bedair astudiaeth achos o'r fath:

- Cymorth Cyflogadwyedd – effaith rôl y llyfrgell wrth gefnogi'r rhaglen 'Sir Ddinbych yn Gweithio' gan ddarparu lleoliad, adnoddau a chefnogaeth staff i fentoriaid gwrdd â chleientiaid a datblygu eu sgiliau a'u hyder. I un unigolyn, mae hyn wedi gwella ei hunan-barch, wedi'i gynorthwyo i gwblhau cyrsiau TG, ac wedi cryfhau ei gymhelliant i weithio; o fod yn ddibynnol ar fudd-daliadau, mae bellach yn hynod gyflogadwy.

- Hafan Ddiogel – effaith y llyfrgell fel man diogel lle gall pobl gael adnoddau a chyfleusterau sy'n cefnogi eu hanghenion bywyd, a chwrdd â chynghorwyr. I un fam mewn galar, bu'n lloches ac yn gymorth gwerthfawr.
- Cyfoethogi Darllen – roedd grŵp darllen mewn un llyfrgell wedi cymryd rhan mewn prosiect i greu atlas llenyddol digidol ar-lein a oedd yn cysylltu ffuglen wedi'i lleoli yng Nghymru â'r ddaearyddiaeth leol. Cyfoethogodd hyn eu repertoire darllen a'u dealltwriaeth yn ogystal ag ychwanegu at rôl gymdeithasol y grŵp.
- Cymorth Awtistiaeth – rôl y llyfrgell yn gweithio gydag ysgol ranbarthol sy'n cefnogi disgyblion ag awtistiaeth; gan hyrwyddo profiad cadarnhaol o fod allan yn y gymuned, datblygu eu hymdeimlad o gyfrifoldeb, a darparu cyfleoedd profiad gwaith llwyddiannus.

## 2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Sir Ddinbych ar gyfer 2017-18. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion sydd â llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Pan fo modd, mae ffigyrau a roddwyd ar gyfer blwyddyn olaf y pumed fframwaith hefyd wedi'u cynnwys er hwylustod cymharu; fodd bynnag, mewn rhai achosion mae newid yn y diffiniad neu gyflwyno mesurau ychwanegol yn golygu nad yw cymharu yn ymarferol. Mae dangosyddion 'fesul pen y boblogaeth' wedi'u cyfrifo fesul 1,000 y boblogaeth, oni nodir yn wahanol.

| Dangosydd perfformiad | | *Safle* | Isaf | Canolrif | Uchaf | *2016/17* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | | |
| a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd: | *amherthnasol* | | 24% | 83% | 94% | *58%* |
| c) iechyd a lles | *amherthnasol* | | 33% | 65% | 95% | *58%* |
| d) lle diogel a chroesawgar | *amherthnasol* | | 90% | 98% | 100% | *93%* |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau | *amherthnasol* | | 88% | 91% | 98% | *90%* |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da' | *amherthnasol* | | 93% | 99% | 100% | *98%* |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da' | *amherthnasol* | | 74% | 86% | 94% | |
| d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol; | *amherthnasol* | | 93% | 97% | 99% | *98%* |
| e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau | *amherthnasol* | | 8.5 | 9.1 | 9.2 | *8.7* |
| DA 5 Hyfforddiant i ddefnyddwyr | | | | | | |
| a) mynychwyr fesul pen | 23 | *15/22* | 10 | 32 | 238 | *12* |
| c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen | 385 | *2/22* | 15 | 199 | 473 | *amherthnasol* |
| DA 6 Mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen y boblogaeth | 335 | *6/22* | 82 | 228 | 684 | *298* |
| DA 8 Defnyddio'r llyfrgell | | | | | | |
| a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth | 4,321 | *6/22* | 2,501 | 4,047 | 7,014 | *4,805* |
| b) rhith-ymweliadau fesul pen | 1,255 | *6/22* | 243 | 866 | 2,211 | *1,201* |
| c) benthycwyr gweithredol fesul pen | 202 | *4/22* | 100 | 154 | 229 | *183* |
| DA 10 Benthyciadau Cymraeg fesul pen * | 304 | *4/22* | 4 | 68 | 663 | |

| Dangosydd perfformiad | | *Safle* | Isaf | Canolrif | Uchaf | *2016/17* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| DA 11 Mynediad ar-lein | | | | | | |
| b) cyfrifiaduron fesul pen^ | 10 | *10/22* | 5 | 9 | 14 | *10* |
| c) % yr amser ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd | 25% | *13/22* | 14% | 27% | 67% | *amherthnasol* |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau | | | | | | |
| (v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr | 28 | *13/21* | 3 | 31 | 196 | *0* |
| b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr | 529 | *17/21* | 40 | 1,346 | 11,939 | *0* |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant fesul pen | £14,073 | *8/21* | £7,047 | £11,915 | £17,771 | *£14,244* |
| b) % ar staff | 60% | *13/21* | 44% | 63% | 75% | *56%* |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 9% | *18/21* | 4% | 13% | 25% | *10%* |
| % ar offer ac adeiladau | 7% | *6/21* | 0% | 4% | 20% | *7%* |
| % ar gostau gweithredol eraill; | 24% | *6/21* | 0% | 18% | 37% | *26%* |
| c) gwariant cyfalaf fesul pen | £2,699 | *3/20* | £0 | £338 | £17,432 | *£2,280* |
| DA 15 Cost net am bob ymweliad | £1.92 | *9/21* | £1.24 | £1.82 | £2.41 | *£2.51* |
| DA 16 Oriau agor# | | | | | | |
| (iii) a) % oriau cau mannau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny | 0.00% | *1/21* | 0.00% | 0.02% | 1.28% | *0.00%* |
| b) % arosfannau llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd | 0.00% | *1/20* | 0.00% | 0.35% | 11.24% | *amherthnasol* |

** fesul pen y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg*

*^ am bob 10,000 o'r boblogaeth breswyl*

*# Mae'r safleoedd yma wedi'u troi o chwith, sef mai 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf (perfformio orau).*

# 3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae adran hon yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad (pan fo'n berthnasol) â rhai blwyddyn olaf y pumed fframwaith (2016-17).

## 3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Nid yw Sir Ddinbych wedi cynnal ei arolygon defnyddwyr eto, ac mae disgwyl i'r rhain gael eu cynnal o leiaf unwaith yn ystod y fframwaith. Mae'r holl lyfrgelloedd sefydlog yn darparu'r ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol ac iechyd a lles, ac mae'r holl staff wedi derbyn hyfforddiant cyfeillion dementia. Mae'r nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddi defnyddwyr a drefnwyd ymlaen llaw wedi parhau i wella (er ei fod yn dal i fod yn is na lefel y canolrif fesul pen y boblogaeth), ac roedd y gwasanaeth wedi llwyddo i adrodd ar y nifer a gafodd gymorth hyfforddiant anffurfiol, gyda'r perfformiad yn hyn o beth ymhlith yr uchaf yng Nghymru.

## 3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Sir Ddinbych yn parhau i gyrraedd y targed ar gyfer mynediad rhwydd i fannau gwasanaeth, ac mae'n cynnal digwyddiadau / gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig ym mhob llyfrgell sefydlog. Cafwyd ehangu sylweddol hefyd yn nifer y gweithgareddau a digwyddiadau a gynigir, gyda nifer y mynychwyr yn codi o ganlyniad, a'r perfformiad yn uwch na lefel y canolrif fesul pen y boblogaeth. Fodd bynnag, mae

ymweliadau corfforol a benthyciadau llyfrau wedi gostwng, er bod y perfformiad ar gyfartaledd fesul pen y boblogaeth yn y ddau faes yn dal i fod yn uwch na chanolrif Cymru. Nodir bod y gostyngiad yn y perfformiad yn hyn o beth yn ôl pob tebyg yn adlewyrchu'r cau a gynlluniwyd ar ddau fan gwasanaeth (dros gyfnod o 7 mis) yn ystod y gwaith adnewyddu. Y gwasanaeth yw'r pedwerydd uchaf o ran benthyciadau Cymraeg fesul pen yng Nghymru, gan adlewyrchu'n dda ar ei fuddsoddiad yn y maes hwn. Mae nifer y benthycwyr gweithredol wedi codi, gyda dim ond gostyngiad bychan yn nifer aelodau'r llyfrgell. Nodir dirywiad mewn benthyciadau clyweledol, gan adlewyrchu cynnydd mewn lawrlwythiadau digidol yn ogystal â chyfyngiadau ariannol ar adnewyddu'r stoc DVDs.

### 3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)

Mae pwysau cyllidebol wedi effeithio ar y buddsoddi yn y gronfa lyfrau yn 2017-18, wrth i nifer y derbyniadau ostwng, ac nid oedd yr un targed o dan ddangosydd ansawdd 9 wedi'u cyflawni. Fodd bynnag, mae'r buddsoddiad mewn adnoddau Cymraeg eu hiaith, sef 11% o'r gyllideb deunyddiau yn gyffredinol, yn fwy na bodloni'r gofynion ar gyfer DA 10, gyda pherfformiad yn hyn o beth yn cael ei adlewyrchu yn nifer uchel y benthyciadau ar ddeunydd Cymraeg. Mae'r ddarpariaeth cyfrifiaduron wedi gostwng ychydig ers 2016-17, gyda'r lefelau defnydd arnynt yn is na'r canolrif ar gyfer Cymru. Nodir bod hyn yn adlewyrchu nifer y cwsmeriaid sy'n defnyddio eu dyfeisiau eu hunain a'r Wi-Fi, er bod y galw am gyfleusterau argraffu yn cynyddu, a bydd y gwasanaeth yn archwilio opsiynau argraffu drwy Wi-Fi yn y flwyddyn i ddod. Ystyrir bod perfformiad mewn perthynas â chyflenwi ceisiadau yn cael ei gyflawni; nid oedd y gwasanaeth yn gallu cyflenwi data ar gyfer ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn yr awdurdod, ond yn hytrach y rhai a gyflenwyd trwy drefniadau i rannu stoc ledled chwe awdurdod y Gogledd. Oherwydd hyn derbyniwyd dangosyddion perfformiad o hanner cyntaf 2018-19 i sicrhau cysondeb ag awdurdodau eraill Gogledd Cymru ac adroddiadau'r gorffennol.

### 3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Mae lefelau'r staff cyffredinol wedi codi ar ôl cwblhau ailstrwythuro, ond maent yn dal i fod yn is na lefel y targed. Mae nifer y staff cymwysedig wedi gostwng ychydig, ac nid yw'r targed hwn ychwaith wedi'i gyflawni. Nodir bod un rôl broffesiynol benodedig wedi'i llenwi gan rywun sydd â phrofiad cytras sy'n bwriadu dilyn cymhwyster ôl-radd yn y dyfodol agos. Mae yma arweinyddiaeth â chymwysterau, ac mae'r gwasanaeth yn bodloni'r gofynion mewn perthynas ag amser a neilltuwyd ar gyfer datblygiad proffesiynol. Mae'r gwasanaeth bellach yn gweithio gyda gwirfoddolwyr, yn dilyn bwlch yn 2016-17, gyda rhyw 28 o unigolion yn cyfrannu cyfartaledd o dros 18 awr. Rhoddir hyfforddiant a goruchwyliaeth briodol i bob gwirfoddolwr, ac maent mewn rolau sy'n cynnig gwerth ychwanegol yn hytrach na chymryd lle staff cyflogedig.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi gostwng ychydig yn 2017-18, ond mae gwariant fesul pen y boblogaeth yn uwch na'r canolrif. Mae cyfanswm yr oriau agor blynyddol wedi cynyddu, ac ni chafwyd unrhyw dorri neu amharu ar y gwasanaeth sefydlog na theithiol.

## 4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad blynyddol, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Cyflwynodd Sir Ddinbych naratif clir yn amlinellu ei gyfraniad at ystod o flaenoriaethau strategol perthnasol, gan gynnwys: blynyddoedd cynnar a llythrennedd;

tai; gofal cymdeithasol; iechyd meddwl; sgiliau a chyflogadwyedd; cymorth iaith Gymraeg; a gwytnwch y gymuned.

## 5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Wrth adrodd ar gyfeiriad a chynlluniau'r awdurdod ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y flwyddyn ganlynol, nodwyd cyfraniad y gwasanaeth tuag at gyflawni Cynllun Corfforaethol 2018-2022 Sir Ddinbych, a'i Gynllun Busnes Gwasanaeth Marchnata a Chyfathrebu â Chwsmeriaid. Mae gweithgareddau a datblygiadau penodol yn cynnwys adnewyddu Llyfrgell Dinbych, creu 'Lolfa mewn Llyfrgell', treialu gwasanaethau Wi-Fi newydd, ac estyn yr arlwy iechyd a lles. Bydd gweithredu'r strategaeth gyfathrebu a marchnata hefyd yn cynnwys brandio newydd, datblygu'r wefan a hyfforddiant y cyfryngau cymdeithasol. Bydd y datblygiadau arfaethedig drwy'r Strategaeth Gwirfoddoli a Strategaeth Datblygu'r Gweithlu yn cefnogi cyfraniad gwirfoddolwyr, ac yn helpu i sicrhau bod anghenion staff proffesiynol y gwasanaeth yn cael eu diwallu ac yn gynaliadwy. Mae ffocws parhaus hefyd ar ystyried opsiynau i gydweithio â gwasanaethau eraill y Gogledd.

## 6 Casgliad

Mae gwasanaeth llyfrgell Sir Ddinbych ar y cyfan wedi cynnal ei berfformiad yn y flwyddyn gyntaf hon o'r chweched fframwaith, gan gael gwelliannau mewn rhai meysydd a gostyngiadau mewn eraill. Bu cynnydd sylweddol yn nifer y digwyddiadau a'r gweithgareddau sydd ar gael, a chynnydd hefyd yn y nifer sy'n mynychu'r rhain ac yn y nifer sy'n manteisio ar gyfleoedd hyfforddi. Gellir egluro'r cwymp yn y ffigyrau eraill yn ymwneud â defnydd oherwydd cau canghennau wrth i'r gwasanaeth fwrw ymlaen â'i raglen adnewyddu. Mae pwysau cyllidebol wedi effeithio ar y gronfa ddeunyddiau yn enwedig, ond ymddengys bod staffio'r gwasanaeth wedi sefydlogi, ac mae pwyslais i'w groesawu yn y datganiad blynyddol ar ddatblygu'r gweithlu, gyda chynlluniau i ddatblygu strategaeth gwasanaeth a ffocws o'r newydd ar sgiliau proffesiynol.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Llyfrgell a Siop Un Alwad Rhuddlan

Mae'r cyfnod yma yn cynnwys un o'r adegau mwyaf prysur yng nghalendr Llyfrgelloedd Sir Ddinbych, fel yn Llyfrgelloedd ar draws y wlad gyda lansiad Sialens Ddarllen yr Haf. Lansiwyd y cynllun yng Ngorffennaf pan ymwelodd staff y llyfrgell gyda nifer o ysgolion a grwpiau i hybu'r sialens sy'n annog plant i barhau gyda'u darllen dros gyfnod yr haf drwy ddod mewn i'r llyfrgelloedd i fwynhau dewis deunydd darllen amrywiol. Parhaodd y sialens tan ddiwedd Mis Medi gyda'r plant yn ymweld a'r llyfrgell tair gwaith ar ôl ymaelodi gan ddarllen beth bynnag chwe llyfr yr un.
Mae'r cynllun ardderchog yma wedi ei hen sefydlu, mae'r budd i'r darllenwyr ifanc yn amlwg ac yn cael ei gydnabod yn genedlaethol gan athrawon a rhieni.
Cafodd y llyfrgellydd groeso cynnes tra'n hybu'r sialens yn Ysgol y Castell, Meithrinfa y Castell a Chylch Meithrin Rhuddlan.

Thema y sialens eleni oedd 'Y dyfeiswyr direidi' i ddathlu penblwydd comic y Beano yn wyth deg. Trefnodd staff y Llyfrgell helfa drysor i gyd fynd â'r thema dros yr haf ac fe wobrwywyd 61 o ddarllenwyr gyda medalau yn Llyfrgell Rhuddlan am gwblhau'r sialens – da iawn nhw!







MJ 1

## Perfformiad y Llyfrgell a Siop Un Alwad - Ch2

| Cyfnod | Ymwelwyr | Benthyciadau | *Ymholiadau Sydyn | **Ymholiadau Llawn | Sesiynnau Cyfrifiadur |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gorff 18** | 1001 | 1534 | 127 | 24 | 202 |
| **Awst 18** | 1802 | 1782 | 95 | 28 | 211 |
| **Medi 18** | 1547 | 1321 | 98 | 32 | 167 |

*Ymholiadau Sydyn – Ymholiadau cwsmer wedi eu datrys yn y Siop Un Alwad

**Ymholiadau Llawn – Ymholiadau cwsmer wedi eu cyfeirio I adrannau eraill C.S.Dd.

## Ystadegau Gweithio Gyda Phartneriaid - Ch2

| Partnership / Agent | Sesiynnau | Plant | Oedolion |
|---|---|---|---|
| Dechrau Da (Gor 18)<br>Bookstart (Jul 18) | 3 | 40 | 38 |
| Cyngor ar Bopeth / CAD, OPUS &<br>Work in Denbighshire (1:1) | 22 | - | 32 |
| Cymraeg i Blant (Med/Sep 18) | 3 | 38 | 38 |
| Pwyntiau Siarad / Talking Points | 14 | - | 16 |
| Grŵp Darllen / Reading Group | 3 | - | 14 |
| Grŵp Llandrillo Menai – Gwersi cyfrifiaduron / Computer classes (Jul 18) | 2 | - | 4 |

### Dechrau Da / Cymraeg i Blant

Cynhelir y sesiynau yma bob yn ail hanner tymor rhwng Llyfrgelloedd Rhuddlan a Llanelwy. Maent yn sesiynau hynod boblogaidd ac mae'r trefniant yn sicrhau darpariaeth wythnosol yn ystod tymor ysgol yn y ddwy lyfrgell.
Bu Dechrau Da yn y Llyfrgell ar b'nawn Llun tan ddiwedd tymor yr haf ac fe fydd Cymraeg i Blant yn dilyn yn ystod y tymor newydd yn Mis Medi ar foreuau Mercher.

Ymunodd nifer o deuluoedd ardal Rhuddlan gyda 200 o blant a'u teuluoedd ar draws y Sir mewn gweithgaredd Dechrau Da llawn hwyl yn Rhyl yn ystod Gorffennaf.

### Blodeuo Rhuddlan 2018

Gwahoddwyd y gwasanaeth Llyfrgell gan Grŵp Blodeuo Rhuddlan i drefnu arddangosfa yn y ganolfan Gymuned yn ystod y diwrnod beirniadu yn Mis Gorffennaf. Croesawyd y beirniad cenedlaethol i'r llyfrgell fel rhan o'r asesiad cymunedol. Cafwyd cyfle i ddangos ein cynnig fel gwasanaeth i'r gymuned gan

gynnwys Sialens Ddarllen yr Haf ar gyfer y plant a'r casgliadau Darllen yn Well a Dementia, roedd yn bleser cael bod yn rhan o'r digwyddiad arbennig yma.

Llongyfarchiadau enfawr i Grŵp Blodeuo Rhuddlan ar ennill y wobr aur deirgwaith yn olynol yn y gystadleuaeth Blodeuo Cymru. Cynhaliwyd noson wobrwyo i gydnabod a diolch i bawb am eu cyfraniadau, yn y Llyfrgell yn Medi gyda dros hanner cant yn bresennol. Pob lwc iddynt yn y gystadleuaeth Blodeuo Prydain, cyhoeddir y canlyniadau yn Belfast yn yr Hydref.







## Digwyddiadur llyfrgell

- BorrowBox – Benthycwch eLyfrau ac eLyfraullafar ar-lein gyda'r ap BorrowBox gan ddefnyddio eich cerdyn a PIN llyfrgell. Holwch am fwy o fanylion.




- Croeso cynnes i Colin Dyer fel rhan parhaol o'r staff yn llyfrgell Rhuddlan ers Gorffennaf, bydd yn gweithio bob yn ail Llun a Iau. Mae Colin yn adnabyddus yn Rhuddlan fel cyn aelod o'r heddlu yn yr ardal yn ogystal â bod yn aelod gwerthfawr o'r tîm gwasanaeth cwsmer Llyfrgell a Siop Un Alwad yn Rhuddlan.
- Penodwyd Debbie Owen yn Reolwr Gwasanaethau Cwsmer Llyfrgelloedd Rhyl a Phrestatyn yn Awst.
- Cafwyd Ymgynghoriad Gwastraff gan Gyngor Sir Ddinbych yn ddiweddar yn y Llyfrgell er mwyn egluro'r newidiadau i'r casgliadau gwastraff yn y Sir.
- Cynhaliwyd holiadur dementia gan Gyngor Tref Rhuddlan yn yr ardal yn ddiweddar gyda'r ffurflenni yn cael eu casglu yn y llyfrgell.
- Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych – cynhelir sesiynau wythnosol yn cynnig cyngor am ddim yn y Llyfrgell ar brynhawn Iau rhwng 1.30 a 3.00 y.p.

- Mae diddordeb wedi cynyddu yn y sesiynau 'Ymlacio trwy liwio' yn ddiweddar sydd ar bnawn Gwener. Bydd sesiynau gemau bwrdd i bob oed yn cael eu cynnig eto yn fuan.
- Mae Grŵp Llandrillo Menai yn ail-gychwyn y dosbarth 'cyfrifiaduron a sgiliau digidol' yn llyfrgell Rhuddlan ar fore Llun o fis Medi ymlaen.
- Pwyntiau Siarad – cynhelir sesiynau bob p'nawn Iau rhwng 2.00 a 4.30 y.p. i gynnig cyngor a chefnogaethar iechyd a llês yn ardal Rhuddlan.




- Cynhaliodd y Plismyn Cymunedol Rebecca ac Aled sesiwn galw-mewn yn y llyfrgell yn ystod Wythnos Dathlu Oed ddiwedd Medi. Cafwyd bore diddorol a llawn gwybodaeth ar atal sgamiau a diogelu rhag troseddau, diolch iddynt am eu hamser ac i'r rhai a fynychodd.

# Rhuddlan Library and One Stop Shop

This quarter, following the annual pattern nationwide, was an extremely busy period for Denbighshire Libraries with the launch of the Summer Reading Challenge. The scheme launched in July when the schools and various groups were visited by library staff to promote the scheme which encouraged children to continue with their reading by visiting our libraries to enjoy choosing and sharing books in any format over the summer period. The challenge continued until the end of September where participants will have visited their library at least three times following registration and read at least six or more books. This excellent project is now well established and the benefits to young readers are recognised nationally by schools and parents. The librarian had a very warm welcome promoting the challenge at Ysgol y Castell, Castle Day Nursery and Cylch Meithrin Rhuddlan.

This year's theme was 'Mischief Makers' celebrating the 80$^{th}$ anniversary of the much-loved comic, Beano. Library staff organised a 'Mischief Makers treasure hunt' at the library over the summer and 61 young readers were awarded medals at Rhuddlan Library.







MJ 5

## Library & One Stop Shop Performance – Q2

| Period | Visitors | Issues (Items borrowed) | *Simple Enquiries | **Full Enquiries | Icam PC Sessions |
|---|---|---|---|---|---|
| **Jul 18** | 1001 | 1534 | 127 | 24 | 202 |
| **Aug 18** | 1802 | 1782 | 95 | 28 | 211 |
| **Sep 18** | 1547 | 1321 | 98 | 32 | 167 |

*Simple Enquiries – Customer enquiries resolved at the One Stop Shop

**Full Enquiries – Customer enquiries referred to other D.C.C. departments.

## Working With Partnerships Data – Q2

| Partnership / Agent | Sessions | Children | Adults |
|---|---|---|---|
| Dechrau Da (Medi 18)<br>Bookstart (Sep 18) | 3 | 40 | 38 |
| Cyngor ar Bopeth / CAD &<br>OPUS (1:1) | 22 | - | 32 |
| Cymraeg i Blant (Gor/Jul 18) | 3 | 38 | 38 |
| Pwyntiau Siarad / Talking Points | 14 | - | 16 |
| Grŵp Darllen / Reading Group | 3 | - | 14 |
| Grŵp Llandrillo Menai – Gwersi cyfrifiaduron / Computer classes (Med/Sep 18) | 2 | - | 4 |

### Bookstart / Cymraeg i Blant

The Bookstart and Cymraeg i Blant sessions are held for a period of half a term at a time alternating between Rhuddlan and St Asaph Libraries. The sessions are extremely popular and this ensures a weekly term-time provision at both libraries. ‘Cymraeg i Blant’ attended the library on Wednesday mornings up to the end of the summer term then Bookstart started Monday afternoon sessions during the new term in September.

During July the Rhuddlan Bookstart families joined families across Denbighshire for an event at the Marine Lake, Rhyl where 200 children and their families enjoyed a fun activity day.

**Rhuddlan in Bloom 2018**

Rhuddlan Library were invited by the Rhuddlan in Bloom group to organise a display at the community centre during the judging event in July. The National adjudicators were welcomed into the library as part of the Rhuddlan community assessment, when we had an opportunity to showcase our offer to our customers including the popular Summer Reading Challenge for the children and the new Reading Well /Dementia scheme, we were proud to be part of this exciting day,

Huge congratulations to the Rhuddlan in Bloom team on gaining their third successive gold award in the Wales in Bloom competition. The presentation evening to acknowledge the efforts of all involved was held at the library in September where over fifty people attended. We wish them the best of luck in the Britain in Bloom event which will be announced in Belfast in October.







## Library update/events

- BorrowBox – Borrow eBooks and eAudiobooks online using the BorrowBox app, all you need is your library card and PIN numbers. Call in for more information.




- We welcome Colin Dyer as a permanent member of the staff at Rhuddlan Library since July, working alternate Mondays and Thursdays. Colin is well-known in the Rhuddlan community as an excellent Library and One Stop Shop customer services assistant and previously a member of the police force in the local area.
- Debbie Owen has been appointed Library and Customer Services Manager at Rhyl and Prestatyn Libraries and One Stop Shops.
- Denbighshire County Council held a waste consultation in the library recently to explain the forthcoming changes to collections.
- Rhuddlan Town Council conducted a dementia awareness questionnaire during August with the forms deposited at the library.

- Citizens Advice Denbighshire – drop-in sessions every Thursday afternoons for free confidential advice between 1.30 and 3.00 p.m.
- There has been an interest in the adult ‘Colour yourself calm’ sessions on Friday afternoons recently. Games in libraries (board games) is another scheme which will be re-introduced soon at Rhuddlan library.
- Grŵp Llandrillo Menai have restarted their classes - ‘Introduction to computers and digital skills’ at the library on Monday mornings from September
- Talking Points – Sessions held every Thursday afternoons between 2.00 and 4.30 p.m. offering support for health and wellbeing in the local area.




- Rhuddlan area PCSOs Rebecca and Aled held a crime and scam awareness drop-in session at the library during Celebrating Age Week at the end of September which was an informative and interesting meeting. Thanks to the PCSOs for their contribution and time and to the public who attended the community event.

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Craffu Perfformiad** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **31 Ionawr 2019** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Chludiant Cynaliadwy / Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd** |
| **Awduron yr Adroddiad:** | **Pennaeth Gwastraff ac Ailgylchu / Pennaeth Priffyrdd a'r Amgylchedd** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Rheoli Gwastraff yng Nghymru: Ailgylchu Trefol** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yma'n sôn am Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Reoli Gwastraff yng Nghymru: Ailgylchu Trefol, a gyhoeddwyd ar 15 Tachwedd 2018. Mae'r adroddiad ynghlwm yn Atodiad 1.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Rhoi gwybod i Aelodau am adroddiad SAC er mwyn i'r pwyllgor graffu ar y casgliadau ac ymateb i Wasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu'r cyngor i fynd i'r afael â'r materion yn yr adroddiad.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried casgliadau adroddiad SAC ac yn cefnogi ymateb Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu'r Cyngor i fynd i'r afael â'r materion yn yr adroddiad.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Casgliad adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ydi:

- Mwy o gydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a chynghorau sydd wrth wraidd y gwelliannau, ond mae costau a pherfformiad yn amrywio ar draws Cymru.
- Mae Llywodraeth Cymru a chynghorau yng Nghymru yn cydweithio mwy, sydd yn helpu i gysoni dulliau ailgylchu yng Nghymru ac mae'n annog mwy o gyfranogiad. Dyna gasgliad adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, sydd yn nodi bod Llywodraeth Cymru o'r farn ei fod i raddau helaeth wedi goresgyn hanes o densiwn a diffyg ymddiriedaeth yn ei dull awgrymedig o ailgylchu gwastraff tai.
- Yn ôl yr adroddiad mae targedau statudol wedi'u seilio ar bwysau wedi ysgogi ar gyfradd ailgylchu llawer gwell – gan gyrraedd ffigur mor uchel â 63.8% ar draws Cymru yn 2016-17. Serch hynny, mae'r gyfradd ailgylchu wedi gostwng i 62.87% yn 2017-18 yn rhannol oherwydd dulliau riportio gwell. Mae'r ffigurau ailgylchu diweddaraf, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2018, yn dangos bod 20 o'r 22 cyngor yng Nghymru wedi cyrraedd neu ragori ar y targed ailgylchu statudol, sef 58% ar gyfer 2017-18.
- Roedd y cyfraddau ailgylchu yn 2017-18 yn amrywio o 56.0% ym Mlaenau Gwent i 72.25% ar Ynys Môn. Fodd bynnag, gall cymharu perfformiad ailgylchu cynghorau yn seiliedig ar eu heffaith ar ostwng carbon ddangos canlyniadau gwahanol. Mae

targedau sy’n seiliedig ar bwysau wedi annog cynghorau i ailgylchu gwastraff y mae eu heffaith carbon fesul tunnell a gesglir yn gymharol fach.

- Mae dull awgrymedig Llywodraeth Cymru i ailgylchu trefol wedi’i nodi yn ei ‘Glasbrint Casgliadau’. Cynyddodd nifer y cynghorau sydd yn cydymffurfio â’r Glasbrint o 3i yn 2011-12 i 11 yn 2016-17. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i fwy o gynghorau fabwysiadu’r Glasbrint dros y blynyddoedd nesaf, ond mae rhai cynghorau'n dal yn amharod i newid eu dull o gasglu deunyddiau ailgylchadwy ar garreg y drws.
- Gwelwyd wrth feincnodi bod cost rhai gwasanaethau rheoli gwastraff yn amrywio i raddau syfrdanol ar draws Cymru. Fodd bynnag, gall ystod eang o ffactorau ddylanwadu ar y costau hyn. Mae Llywodraeth Cymru o’r farn fod ei Glasbrint Casgliadau, o’i weithredu’n optimaidd, yn cynnig y dull mwyaf cost-effeithiol yn gyffredinol o gasglu gwastraff o aelwydydd.

4.2. Mae Adroddiad SAC yn gwneud pedwar argymhelliad (i’w gweld yn llawn isod). Mae barn/ymateb y Tîm Gwastraff ac Ailgylchu wedi'i grynhoi o dan bob argymhelliad:

**Argymhelliad 1 SAC:**

*O waith meincnodi, gwelwyd bod yr amrywiaeth yng nghost rhai gwasanaethau rheoli gwastraff yn destun syndod (paragraffau 1.31-1.39). Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chynghorau i gael dealltwriaeth well o'r rhesymau wrth wraidd yr amrywio mewn gwariant ar wasanaethau rheoli gwastraff sydd i bob pwrpas yr un peth, a sicrhau y rhoddir cyfrif am gostau rheoli gwastraff mewn modd cyson.*

**Ymateb CSDd i Argymhelliad 1:**

Byddai Cyngor Sir Ddinbych yn croesawu’r cyfle i gefnogi Llywodraeth Cymru i gael dealltwriaeth well o’r amrywiaethau mewn costau rhwng Awdurdodau Lleol. Mae effeithiolrwydd cyffredinol gwasanaeth yn fesur cyfunol o berfformiad a chost. Mae awdurdodau sy’n perfformio’n uchel yn debygol o wario mwy. Mae’r gwahaniaethau demograffig a daearyddol eithafol rhwng awdurdodau yng Nghymru yn arwain at fwy o amrywiaeth yn y gost. I gael darlun mwy clir o sut mae’r Awdurdodau’n perfformio, byddai’n fanteisiol i feincnodi yn erbyn Awdurdodau tebyg yn Lloegr a’r Alban.

Mae Ffigur 5 (tudalen 39 Atodiad II) yn dangos mai Sir Ddinbych oedd â’r 3ydd cost isaf yng Nghymru am gost fesul aelwyd am gasgliadau ailgylchu sych ar garreg y drws o’r holl gynghorau yn 2016-17. Fodd bynnag, gan fod y safle yma wedi gwaethygu’n sylweddol ers 2016-17 oherwydd cynnydd yn y ffi glwyd, rydym yn talu i gael gwared ar ddeunydd ailgylchadwy sych sy’n cael ei gasglu trwy ein gwasanaeth ailgylchu cymysg. Dyma un o’r prif resymau y mae’r gwasanaeth wedi cynnig newid i wasanaeth ailgylchu didoli ar garreg y drws (fel y cymeradwywyd gan y Cabinet ar 18 Rhagfyr 2018). Mae Ffigur 6 (tudalen 41 Atodiad II) yn dangos bod Sir Ddinbych yn y trydydd safle ar ddeg o ran cost gwasanaethau gwastraff y cartref mewn cynghorau fesul cartref yn 2016-17. Fe fydd y sefyllfa yma wedi gwaethygu ers hynny oherwydd cost gynyddol ein gwasanaethau ailgylchu presennol. Bydd y model casglu arfaethedig newydd ar gyfer ailgylchu gwastraff y cartref a gwastraff gweddilliol yn gostwng cost ein gwasanaeth rheoli gwastraff yn sylweddol.

**Argymhelliad 2 SAC:**

*Mae Llywodraeth Cymru o’r farn fod ei Glasbrint Casgliadau o’i weithredu’n optimaidd, yn cynnig y dull mwyaf cost-effeithiol yn gyffredinol o gasglu adnoddau ailgylchadwy,*

*ond yn bwriadu gwneud gwaith dadansoddi pellach (paragraffau 1.40-1.51). Wrth ddadansoddi ymhellach er mwyn cael dealltwriaeth well o'r rhesymau wrth wraidd y gwahaniaethau yn y costau a adroddwyd gan gynghorau, a'r effaith ar gostau lle mabwysiadwyd y Glasbrint Casgliadau gan y cynghorau, argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru;*

- *archwilio sut y gallai'r gost o gasglu deunyddiau ailgylchadwy sych effeithio ar gyfanswm y gost o ddarparu gwasanaethau rheoli gwastraff ar garreg y drws i aelwydydd; a*
- *chymharu'r costau gwirioneddol â'r costau a fodelwyd yn flaenorol yn rhan o'r adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru o'r Glasbrint Casgliadau, yn achos cynghorau sydd bellach yn gweithredu'r Glasbrint Casgliadau.*

**Ymateb CSDd i Argymhelliad 2:**

Mae'r argymhelliad yma wedi'i anelu at Lywodraeth Cymru, yn hytrach na chynghorau. Serch hynny, mae'r Cyngor wedi penderfynu newid i'r model cydymffurfio â'r Glasbrint Casgliadau (a gefnogwyd gan y Cabinet ar 18 Rhagfyr 2018), ac mae'r gwasanaeth yn glir mai dyma'r model mwyaf cost effeithiol i Sir Ddinbych.

**Argymhelliad 3 SAC:**

